

Dechrau Bywyd Newydd yng Nghymru:

Adroddiad Ymchwil Arolwg Croeso i Ddeiliaid Fisa Gwladolion Prydeinig Hong Kong



Sin Yi Cheung
Ben Foster

Mawrth 2023



Department for Levelling Up,
Housing & Communities



Partneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru
Wales Strategic Migration Partnership



Cydnabyddiaeth

Rydym yn ddiolchgar i'r holl bobl o Hong Kong wnaeth gymryd yr amser i ateb yr arolwg hwn. Diolch hefyd i aelodau o'r Gweithgor Amlasiantaeth Prosiect Cynllun Fisa Gwladolion Prydeinig Hong Kong, rheolwr [Partneriaeth Mudo Strategol Cymru](#), Ann Hubbard a'r Cydlynwyr Prosiect Cynllun Fisa Michael Smith a Sonya Foley am eu sylwadau defnyddiol ar fersiwn flaenorol yr adroddiad hwn. Mae'r adroddiad hwn yn cael ei ariannu gan [Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru](#) (CLILC), sy'n derbyn arian gan yr Adran Ffyniant Bro a Thai a Chymunedau fel rhan o Gronfa Croesawu pobl o Hong Kong.

Yr Awduron

Mae'r [Athro Sin Yi Cheung](#) yn Athro Cymdeithaseg yn yr Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd ac yn Gymrawd Cymdeithas Ddysgedig Cymru. Mae ei harbenigedd ymchwil yn cynnwys meysydd anghyfartaledd ethnig a hiliol, integreiddio ffoaduriaid a mewnfudwyr, cymdeithaseg addysg a haeniad cymdeithasol. Mae'n aelod o Bartneriaeth Mudo Strategol Cymru ac yn eistedd ar Weithgor Prosiect Integreiddio Mudwyr Llywodraeth Cymru a Gweithgor Amlasiantaeth Prosiect Cynllun Fisa Gwladolion Prydeinig Hong Kong.

Mae **Ben Foster** yn fyfyrwr PhD yn Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd. Mae ei draethawd ymchwil yn archwilio data cyfryngau cymdeithasol mewn perthynas â thensiynau cymunedol a digwyddiadau sbarduno. Mae'n eistedd ar Fwrdd Trosedd Casineb a Chyfiawnder Cymunedol Llywodraeth Cymru. Ynghyd â'i astudiaethau, mae hefyd yn gweithio'n rhan amser fel cyswllt ymchwil ac yn addysgu dulliau ymchwil is-raddedig.

Cynnwys

Cydnabyddiaeth	2
Rhestr Ffigurau	5
Crynodeb Gweithredol	6
1. Cyflwyniad	1
2. Cefndir a Chyd-destun	3
2.1 Statws Gwladolion Prydeinig (Tramor)	3
2.2 Geo-ddosbarthu setliad	5
2.3 Pwy yw'r BN(O) yn y DU?	5
2.4 Heriau a brofyd gan newydd-ddyfodiaid	6
Tai a Llety	6
Cyflogaeth.....	7
Mynediad i Wasanaethau Gofal Iechyd	7
Sgiliau Saesneg a Mynediad i Ddosbarthiadau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill	8
3. Dulliau a Chasglu Data	10
4. Canfyddiadau'r Arolwg	12
4.1 Cymhelliant ar gyfer Symud	12
4.2 Demograffeg	13
Geo-Ddosbarthiad.....	13
Cyfeiriadedd Rhywiol.....	15
Crefydd.....	16
Oedran.....	17
4.3 Statws Priodasol/Partneriaeth a strwythur teuluol	17
Statws Partneriaeth	17
Statws Rhieni:	18
4.4 Tai a Llety	19
Anawsterau cael Mynediad i Dai Fforddiadwy	20
4.5 Addysg a Chyflogaeth	23
Cymwysterau Addysg.....	23
Gweithgaredd Economaidd.....	23
Mathau o Gyflogaeth a'r Sector Diwydiannol.....	26
4.6 Sgiliau Iaith	29
Sgiliau Iaith Gymraeg.....	33
4.7 Dosbarthiadau Saesneg	35
Mynediad i ddosbarthiadau Saesneg	35
4.8 Statws a Phryderon Iechyd	40
Gwasanaethau Cynnal Eraill	41
.....	42
.....	42

4.9 Ymgartrefu.....	42
Ymgysylltu Sefydliadol	42
Addysg.....	43
Ymgartrefu a chyfryngau cymdeithasol.....	46
Am faint o amser y bwriedir aros	47
Hapusrwydd yng Nghymru.....	48
5. Cymhariaeth Genedlaethol.....	50
5.1 Ffynonellau Data	50
5.2 Am faint o amser y bwriedir aros.....	51
5.3 Demograffeg allweddol.....	51
Rhyw	52
Statws perthynas	53
Statws priodasol.....	54
Cymwysterau	55
5.4 Sgiliau Saesneg.....	56
6. Goblygiadau Polisi.....	58
7. Ymchwil yn y Dyfodol.....	60
Llyfryddiaeth.....	62
ATODIADAU.....	64

Rhestr Ffigurau

Ffigur 4.11: Cymhelliant ar gyfer symud i Gymru	12
Ffigur 4.21: Geo-ddosbarthu ymatebwyr.....	13
Ffigwr 4.2.3: Dosbarthiad rhywedd	15
Ffigur 4.5.2: Gweithgaredd economaidd	23
Ffigur 4.5.3: Math o Gyflogaeth	26
Ffigur 4.6.6: Mynegai gallu Saesneg	33
Ffigur 4.6.8: Parodrwydd i ddysgu Cymraeg.....	34
Ffigur 4.7.1: Canfyddiad o ddosbarthiadau ESOL	35
Ffigur 4.9.2: Sgôr cymedrig graddfeydd ar gyfer ymgysylltu sefydliadol	44
Ffigur 54.1: Gallu ymfudwyr yng Nghymru a dinasyddion Hong Kong i siarad Saesneg.....	56

Crynodeb Gweithredol

Cyflwyniad

Yn dilyn gormes protestiadau democrataidd a chosb Cyfraith Diogelwch Cenedlaethol gan Lywodraeth Tsieineaidd ar Hong Kong ym mis Gorffennaf 2020, roedd cannoedd o filoedd o ddinasyddion Hong Kong yn gadael y diriogaeth. Ym mis Ionawr 2021, roedd Llywodraeth Prydain wedi cyflwyno llwybr mewnfudo newydd a chynllun fisa pwrpasol ar gyfer deiliaid pasbort Gwladolion Prydeinig (Tramor) yn Hong Kong, gan roi'r hawl iddynt ddod i'r DU i fyw, gweithio neu astudio. Erbyn Mehefin 2022, roedd yna 140,500 o geisiadau a disgwylir i oddeutu 258,000-322,400 o bobl o Hong Kong symud i'r DU yn y pum mlynedd nesaf. Amcangyfrifir bod cymaint â 932,000 yn ystyried ymgeisio. Fel rhan o Raglen Groeso Hong Kong, roedd yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau wedi cyflwyno pecyn cefnogaeth £43 miliwn i helpu BN(O) sy'n cyrraedd i setlo yn y DU. Roedd arian wedi'i ddsbarthu i genhedloedd datganoledig ac awdurdodau lleol ac roedd 12 Canolfan Groeso wedi eu sefydlu ar draws y DU gyda Phartneriaethau Mudo Strategol presennol, gan gynnwys Partneriaethau Mudo Strategol Cymru a Chanolfan Groeso Hong Kong yng Nghymru.

Yr Arolwg Croeso 2022

Er mwyn canfod pwy sy'n cyrraedd yng Nghymru a pha gefnogaeth integreiddio maent ei angen roedd WSMP wedi comisiynu Data Cymru i gynnal Arolwg Croeso ar ddiwedd 2021, gyda chasglu data yn digwydd ganol Mai i ganol Mehefin 2022. Cafodd yr holiadur ei fodelu yn dilyn arolwg gan Gonfensiwn Awdurdodau Lleol yr Alban. Roedd yr arolwg hunan-gwblhau ar-lein ar gael mewn tair iaith: Tsieineaidd Traddodiadol, Cymraeg a Saesneg a chafodd ei hybu ar dudalen gwe Canolfan Groeso a thrwy amrywiol grwpiau cymunedol Hong Kong. Cafodd cwestiynau eu trefnu mewn saith maes eang: demograffig allweddol, cymhelliant i symud i Gymru, llety a thai, addysg a chyflogaeth, sgiliau iaith, statws iechyd a phryderon, a setlo mewn bywyd newydd yn rhwydd. Cafodd cyfanswm o 153 o ymatebion eu dychwelyd gyda dwy ran o dair o ymatebwyr yn ateb mewn Tsieineaidd Traddodiadol ac un rhan o dair yn Saesneg. Roedd yr arolwg yn cynhyrchu canfyddiadau meintiol ac ansoddol. Cafodd Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd ei gomisiynu i gynnal dadansoddiad data manwl a llunio adroddiad arolwg. Mae canfyddiadau o'r dadansoddiad o'r arolwg ac argymhellion wedi eu bwriadu i lywio polisi a chynllunio gwasanaeth yn y meysydd yr oedd pobl Hong Kong yn eu hystyried yn bwysig iddyn nhw, yn arbennig targedu darpariaeth gwasanaeth ar gyfer ail flwyddyn prosiect Cynllun Fisa Gwladolion Hong Kong.

Canfyddiadau

Tai (96%) a chyfleoedd gwaith (78%) yw'r ddau brif **gymhelliant ar gyfer symud** i Gymru, gyda diwylliant Cymreig (69%) i ddilyn. Roedd y mwyafrif wedi setlo yng Nghaerdydd (74%), gyda'r gweddill ar wasgar yn Abertawe (6%), Rhondda Cynon Taf (5%), Bro Morgannwg (4%), Caerffili (3%) a Chasnewydd (2%). Roedd ychydig o dan hanner (46%) yn dweud eu bod yn bwriadu aros yn barhaol yng Nghymru gyda 37% arall yn dweud y byddant yn aros am bum mlynedd neu fwy.

Demograffig allweddol

Roedd naw allan o ddeg o ymatebwyr yn ddeiliaid fisa Gwladolion Prydeinig. Roedd cyfran uwch o ymatebwyr yn fenywaidd (57%) a'r mwyafrif (86%) yn nodi eu hunain yn heterorywiol. Roedd hanner (49%) yn nodi eu hunain yn Gristnogion a 43% yn dweud nad oedd ganddynt unrhyw grefydd. Roedd y mwyafrif yn oedran gwaith: 22-44 (51%) a 45-64 (46%). Roedd wyth mewn deg yn briod neu'n byw gyda phartner (82%) a 44% yn rhieni gyda phlant oed ysgol yn yr aelwyd.

Tai a Llety

Tra bod ychydig o dan hanner (43%) yn rhentu, roedd 22% arall yn dweud eu bod yn 'bwriadu bod yn berchen', yn nodi eu bod hefyd yn debyg o fod yn rhentu. 26% yn unig o ymatebwyr oedd yn berchen feddiannydd. Mae hyn yn sylweddol is o'i gymharu â

chanfyddiadau arolygon cenedlaethol. Mae hyn yn gallu awgrymu bod y sawl wnaeth symud i Gymru â lefelau llai o asedau. Roedd llawer o breswylwyr (54%) yn arbennig y sawl oedd yn rhentu (64%) yn wynebu rhwystrau cyson wrth ddod o hyd i dai addas. Roedd landlordiaid oedd yn mynnu hyd at 12 mis o rent ymlaen llaw yn gyffredin oherwydd diffyg credyd Prydeinig a hanes rhentu a chyfeiriad bilio.

Addysg a Chyflogaeth

Yn gyson gyda phatrymau cenedlaethol, roedd y mwyafrif o gyraeddiadau diweddar o Hong Kong (61%) yn hynod gymwys gyda gradd prifysgol. 60% yn unig oedd yn gyflogedig, sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol sef 74% yng Nghymru. Roedd rhwystrau i gyflogaeth yn cael eu nodi yn cynnwys diffyg sgiliau iaith, heneiddio a gwahaniaethu. Mae costau byw yn bryder cyson ymhlith bobl o Hong Kong, gyda 70% yn dweud ei fod yn bryder presennol. Ymhlith y sawl mewn gwaith, roedd pedwar mewn deg yn gweithio'n rhan amser. Nid oedd llawer yn gallu dod o hyd i waith yn y sector yr oeddent yn gweithio ynddo o'r blaen tra yn Hong Kong. Mae yna nifer uchel o newydd-ddyfodiaid diweddar (37%) mewn Manwerthu, Twristiaeth a Lletygarwch a chyfran llawer llai mewn sectorau proffesiynol fel TG, y Gyfraith, Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Llywodraeth. Mae'n bosibl bod nifer wedi mynd i swyddi llenwi mewn dros dro tra'n chwilio am rywbeth mwy

parhaol. Hefyd, mae'n bosibl bod rhai wedi gorgymhwyso a'u tangyflogi.

Sgiliau iaith

Er bod gan 60% o ymatebwyr radd prifysgol, roedd chwech allan o ddeg yn bryderus am eu sgiliau iaith Saesneg, gyda'r iaith a ffefrir gan 73% yn Cantoneg. 47% yn unig oedd yn dweud eu bod yn gallu deall Saesneg a 50% yn dweud eu bod yn gallu siarad Saesneg da. Mae'r gyfran o sgiliau Saesneg 'da iawn' yn gymharol isel o 7.3% (darllen) i 1% (siarad). Mae yna wahaniaeth bach rhwng y rhywiau o ran gallu Saesneg, ond mae gan bobl hŷn Hong Kong sgiliau iaith sylweddol is. Mae canfyddiadau o'r Mynegai Gallu Saesneg yn dangos sgôr gallu siarad Saesneg is gan y di-waith, y sawl â salwch a llai o gymwysterau. Mae hyn yn nodi angen brys am gefnogaeth a dargedwyd a mwy o fynediad i ddosbarthiadau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill i'r grwpiau hyn.

Roedd bron hanner yr ymatebwyr (46%) yn dweud nad oedd dosbarthiadau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill ar gael a 37% yn dweud nad oedd dosbarthiadau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill yn cwrdd â'u hanghenion. Mae dadansoddiad yn dangos bod diffyg mynediad i ddosbarthiadau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill yn gysylltiedig â rhwystrau i gael mynediad i sefydliadau eraill fel gwasanaethau cymorth a chyflogaeth. Mae'r canfyddiadau hyn unwaith eto yn

awgrymu bod bobl o Hong Kong yn wynebu rhwystrau cyson i gael y gefnogaeth maent ei hangen i integreiddio i fywyd yng Nghymru. Cafodd dosbarthiadau ar-lein eu crybwyll fel dull amgen i wella darpariaeth yn arbennig i'r sawl ag ymrwymtiadau gofal plant a gwaith.

Er bod y mwyafrif o ymatebwyr ag ychydig o allu i siarad Cymraeg roedd dros hanner (56%) yn dweud yr hoffent ddysgu ar gyfer cyfleoedd gwaith gwell, cefnogi plant yn yr ysgol ac integreiddio i ddiwylliant lleol fel rhesymau.

Statws a Phryderon Iechyd

Ymhlith y 12% oedd yn dweud bod ganddynt bryder iechyd, roedd 32% ohonynt yn faterion iechyd meddwl. Nid yw hyn yn fawr o syndod ac yn debygol o fod wedi'i dan-gynrychioli oherwydd y stigma a'r trawma a brofwyd gan nifer o ganlyniad i ormes trais y mudiadau democrataidd yn Hong Kong. Yr un mor bryderus yw bod 40% o ymatebwyr wedi ei chael hi'n anodd cael **mynediad i'r gwasanaethau iechyd**, er gwaethaf y ffaith eu bod wedi talu am y Gordal Iechyd Mewnffudo. Mae ymgynghoriad dros y ffôn yn dilyn covid mewn meddygfeydd hefyd yn cyflwyno rhwystrau pellach gan fod llawer yn ei chael hi'n anodd disgrifio salwch a symptomau yn Saesneg.

Rhwystrau i Integreiddio

Ymysg y dimensiynau 'setlo i mewn', roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn

gweld addasu i fywyd yng Nghymru yn hawdd ond yn wynebu'r rhan fwyaf o rwystrau o ran cael mynediad i wasanaethau tai, cyflogaeth, iechyd a dosbarthiadau Saesneg. Roedd eraill hefyd yn dweud eu bod yn cael anawsterau dod o hyd i ysgol i'w plentyn oherwydd diffyg gwybodaeth amserol a gwybod lle i gael cymorth. Ailadrodd am bryderon dros wahaniaethu, anghyfartaleddau a throsedd casineb hefyd yn amlwg ar gyfer ymyrraeth polisi brys. Ar nodyn cadarnhaol, mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi profi yn borth pwysig ar gyfer integreiddio digidol wrth i nifer o bobl Hong Kong ddod o hyd i gymorth a chefnogaeth ar-lein yn ogystal â gwybodaeth werthfawr yn ymwneud â diwylliant a gwasanaethau lleol.

Hapusrwydd yng Nghymru

Roedd mwyafrif helaeth (86%) yn dweud eu bod yn hapus iawn neu'n hapus ar ôl symud i Gymru. Y sawl â salwch hirdymor neu'n ddiwaith oedd â'r sgôr 'hapusrwydd' isaf.

Goblygiadau Polisi

Mae yna dystiolaeth glir bod bobl o Hong Kong sy'n newydd angen cefnogaeth ychwanegol i ddatblygu bywyd newydd yng Nghymru. Er bod WSMP a Phrosiect Cynllun Fisa Hong Kong wedi darparu plattform ar gyfer cydweithio amlasiantaeth a thraws-sector, mae angen gwneud mwy. Nid oes gan bobl o Hong Kong fynediad i wasanaethau sydd ar gael i geiswyr lloches neu ffoaduriaid. Mae diffyg

cefnogaeth o gyllid cyhoeddus yn rhoi'r sawl ar incwm isel mewn perygl o angen. Mae tystiolaeth orfodol o ganfyddiadau'r arolwg yn awgrym bod y meysydd hyn angen sylw polisi brys:

- **Ysgol ac Addysg** - blaenoriaethu darpariaeth addysg ôl-18 a mynediad i gyllid ar gyfer bobl ifanc o Hong Kong, nifer ohonynt yn fyfyrwyr prifysgol ond heb orffen eu gradd. Gwella cefnogaeth i blant sydd angen ail-wneud blwyddyn yn yr ysgol.
- **Tai** - gwybodaeth well i landlordiaid ac asiantaethau gosod i gefnogi bobl o Hong Kong heb hanes rhentu/credyd. Gorfodi'r Ddeddf Rhentu Tai newydd sy'n cynyddu cyfrifoldebau landlordiaid a hawliau rhentwyr.
- **Cyflogaeth** - mae angen gwasanaethau gyrfaedd a gwybodaeth well ar gyfer swyddi ar frys i helpu pobl o Hong Kong i symud i waith cynaliadwy sy'n gymesur â chymwysterau.
- **Dosbarthiadau iaith** - cynyddu cefnogaeth gofal plant a hyblygrwydd, amrywio'r modd o ddarparu dosbarthiadau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill i gynnwys sesiynau ar-lein Mae darpariaeth ehangach dosbarthiadau Cymraeg hefyd yn ddymunol.
- **Gwasanaethau gofal iechyd** - gwasanaeth cyfieithu ar gyfer

ymgyngoriad dros y ffôn a gwybodaeth well ar ddod o hyd i ddeintydd GIG.

- **Integreiddio a Rhwydwaith Cymdeithasol** - gweithio gyda chymunedau fel grwpiau cefnogaeth anffurfiol i bobl o Hong Kong, grwpiau ffydd, yn ogystal â sefydliadau Cymraeg lleol i wella

cyfleoedd ar gyfer integreiddio amlddiwylliannol.

- **Cyfryngau Cymdeithasol/Integreiddio Digidol** - gwella rhannu gwybodaeth grwpiau cefnogi drwy gyfryngau cymdeithasol, porth i integreiddio digidol i'r gymdeithas Gymraeg ehangach.

1. Cyflwyniad

Yn Ionawr 2021, lansiodd llywodraeth y DU gynllun fisa newydd ar gyfer deilwyr pasbort Gwladolion Prydeinig (Tramor) yn Hong Kong, yn dilyn gosod Cyfraith Diogelwch Cenedlaethol gan llywodraeth Tsieineaidd ar y cyn drefedigaeth Brydeinig. O dan y cynllun fisa newydd hwn, mae dinasyddion Hong Kong a anwyd cyn 1 Gorffennaf 1997 a'u teulu uniongyrchol yn gallu symud i'r DU i fyw, astudio a gweithio. Mae'r cynllun fisa hwn yn cael ei ystyried fel ymrwymiad llywodraeth y DU i drigolion sydd wedi dewis cynnal tadogaeth Brydeinig drwy fod yn Wladolion Prydeinig (Tramor) ar ôl i sofraniaeth Hong Kong gael ei drosglwyddo i Tsieina yn 1997. Ymhlith y 5.2 miliwn o bobl Hong Kong (2.9 miliwn o ddeiliaid statws BN(O) a 2.3 miliwn o ddibynyddion) sy'n gymwys i symud i'r DU, roedd y Swyddfa Gartref yn amcangyfrif y bydd rhwng 123,000 a 153,700 BN(O) a'u dibynyddion yn symud i'r DU yn y flwyddyn gyntaf a 258,000 - 322,400 pellach yn cyrraedd yn y pum mlynedd nesaf ([Tîm Newyddion y Swyddfa Gartref 2022](#)).

Mae ystadegau yn dangos o fewn y flwyddyn gyntaf (Ionawr 2021 - Mawrth 2022), roedd 113,742 fisa wedi eu rhoi gyda 92% yn llwyddiannus. Erbyn diwedd Mehefin 2022, derbyniwyd 140,500 cais (Swyddfa Gartref 2022). Mae ymchwil gan yr [Arsyllfa Ymfudo](#) (2021) wedi amcangyfrif bod cymaint â 932,000 BN(O) Hong Kong yn ystyried ymgeisio.¹ Er bod y mwyafrif sydd wedi cyrraedd o Hong Kong yn ddiweddar yn ddeiliaid fisa BN(O), mae nifer fechan, yn arbennig gweithredwyr gwleidyddol wedi dod i'r DU yn ceisio lloches ac roedd tua 7,000 wedi derbyn 'Caniatâd i Aros y Tu Allan i'r Rheolau' i BN(O) rhwng Gorffennaf 2020 a Ionawr 2021 cyn y daeth y cynllun fisa i rym (Tîm Newyddion y Swyddfa Gartref, 2022). Mae'n werth nodi bod amseru'r rhain yn cyrraedd yn cyd-fynd â dechrau cyfnod mewnfudo ôl-Brexit sy'n nodi diwedd rhyddid i symud a'r gostyngiad sydyn mewn ymfudwyr UE yn y DU. Mae rhagolygon economaidd yn amcangyfrif bod budd net y rhai sy'n cyrraedd rhwng £2.4 biliwn a £2.9 biliwn dros y pum mlynedd nesaf (Tîm Newyddion y Swyddfa Gartref, 2022).

¹ Gweler y briff Arsyllfa Mudo ar fwriad mudo deilwyr statws Gwladolion Prydeinig (Tramor) yn Hong Kong (Kan et al. 2021).

Mae'r amcangyfrifon cychwynnol hyn yn unig yn nodi y bydd y cynllun fisa BN(O) yn rhoi hwb sylweddol i economi ôl-Brexit ac ôl-Covid y DU.

Fel rhan o Raglen Groeso Hong Kong, roedd yr [Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau](#) wedi cyflwyno pecyn cefnogaeth £43 miliwn i helpu BN(O) sy'n cyrraedd i setlo yn y DU. Roedd arian wedi'i ddsbarthu i genhedloedd datganoledig ac awdurdodau lleol ac roedd 12 Canolfan Groeso wedi eu sefydlu ar draws y DU gyda Phartneriaethau Mudo Strategol presennol, gan gynnwys Partneriaethau Mudo Strategol Cymru a Chanolfan Groeso Hong Kong yng Nghymru.

Mae nifer o astudiaethau wedi eu cynnal i ddeall y newydd-ddyfodiaid hyn o Hong Kong yn ddiweddar o ran demograffig allweddol, cymhelliant i symud a setliad rhwydd. Roedd y rhan fwyaf o ymchwil wedi'i gynnal ar lefelau rhanbarthol gan gynnwys yr Arolygon Croeso yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn cynrychioli archwiliad systematig cyntaf rhai sy'n cyrraedd o Hong Kong yng Nghymru yn yr agweddau canlynol:

1. Demograffeg allweddol
2. Cymhelliant ar gyfer symud i Gymru
3. Tai a Llety
4. Addysg a Chyflogaeth
5. Rhuglder ieithyddol
6. Statws a phryderon iechyd
7. Setlo i mewn i fywyd newydd yn rhwydd

Yn ogystal â darparu proffil demograffig-gymdeithasol mudwyr Hong Kong i Gymru yn ddiweddar, mae'r astudiaeth hon hefyd yn anelu i nodi anghenion y newydd-ddyfodiaid hyn wrth setlo yn eu bywyd newydd yng Nghymru, a ble mae data yn caniatáu, i ba raddau maent yn wahanol i'r sawl sy'n setlo mewn rhannau eraill o'r DU. Mae'r adroddiad yn cloi gyda nifer o oblygiadau polisi. Cyn cyflwyno canfyddiadau'r Arolwg Croeso, mae angen trosolwg byr o statws cenedligrwydd BN(O) yn amlygu'r cyd-destun sy'n arwain at y ddeddfwriaeth fewnfudo newydd.

2. Cefndir a Chyd-destun

2.1 Statws Gwladolion Prydeinig (Tramor)

Mae statws Gwladolion Prydeinig (Tramor), a gyflwynwyd yn 1986, yn un o nifer o fathau o ddinasyddiaeth Brydeinig yn hierarchaeth Prydeinig a grëwyd ar gyfer pobl Hong Kong fel eu bod yn gallu cynnal math o ddinasyddiaeth a chysylltiadau Prydeinig â'r DU ar ôl trosglwyddo i Tsieina yn 1997 yn unol â'r Datganiad ar y Cyd Sino-Brydeinig yn 1984 (Swyddfa Gartref, 2020). Mae'r statws BN(O), yr ailgyfluniad diweddaraf o genedligrwydd pobl Hong Kong, yn cael ei ystyried fel eithriad hael o drefn mewnfudo llywodraeth y DU sydd fel arall yn elyniaethus a chaeth. Yn hanesyddol, mae statws cenedligrwydd pobl Hong Kong wedi mynd drwy sawl newid yn dilyn cyfres o ddeddfwriaethau mewnfudo a chenedligrwydd Prydeinig. Fel holl bobl eraill ar draws yr Ymerodraeth Brydeinig, roedd dinasyddion Hong Kong yn ddeiliaid Prydeinig nes i Ddeddf Cenedligrwydd Prydeinig 1948 eu gwneud yn Ddinasyddion y DU a Threfedigaeth (CUKC). Cafodd eu hawl i gartrefu yn y DU fel CUKC ei dynnu gan Ddeddf Mewnfudo'r Gymanwlad 1962. Yna daethant yn Ddinasyddion Tiriogaethau Dibynnol Prydain (BTDC) ers Ddeddf Cenedligrwydd Prydeinig 1981. Roedd BTDC yn gymwys i ymgeisio am BN(O) ers 1986. Roedd ceisiadau ar gyfer BN(O) yn agored tan 30 Mehefin 1997 ac ni ellir trosglwyddo'r statws i aelodau o'r teulu. Yn hanfodol, yn wahanol i'w cymheiriaid mewn cyn drefedigaeth Brydeinig arall a thiriogaeth dramor, nid oedd pobl Hong Kong erioed wedi derbyn statws Dinasyddion Tramor Prydeinig (BOC) ac maent bob amser wedi bod yn destun rheolaethau mewnfudo.² Symud ymlaen i 2021, nid yw'r cynllun fisa BN(O) pwrpasol, er ei fod yn ymddangos yn hael o'i gymharu â llwybrau mewnfudo eraill, nid yw'n rhoi'r un buddion i'w ddeiliaid â dinasyddion Prydeinig. Er nad oes yna drothwy incwm i ymgeisio, mae Dim Hawl Cyrchu Cronfeydd Cyhoeddus (DHCCC) yn golygu nad oes gan BN(O) hawl i dai cymdeithasol, budd-daliadau'r wladwriaeth, ffioedd myfyrwyr cartref yn y brifysgol, dosbarthiadau Saesneg ar gyfer Siaradwyr

² Gweler Benson (2021) ar gyfer dadansoddiad llawn a chipolwg o bobl o Hong Kong a gwladychiaeth dinasyddiaeth Brydeinig.

Ieithoedd Eraill³, ac mae'n rhaid iddynt dalu i gael mynediad i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Fodd bynnag, gall y sawl sy'n gallu profi eu bod ar incwm isel ymgeisio am arian i helpu i gwrdd â'u costau byw hanfodol gan gynnwys rhent a lles plant.

Pwy sy'n gallu ymgeisio am fisa BN(O) a sut?

Mae'r fisa BN(O) yn galluogi deiliaid ac aelodau cymwys o'u teulu i symud i fyw, astudio a gweithio yn y DU. Gall ymgeiswyr naill ai ymgeisio am ddeg mis ar hugain ac yna ymestyn am ddeg mis ar hugain ychwanegol neu ymgeisio am y pum mlynedd llawn ar unwaith. Ynghyd â rhoi cyfle i fyw yn y DU am hyd at bum mlynedd, mae'r cynllun hefyd yn lwybr i ddinasyddiaeth. Yn dilyn y pum mlynedd cyntaf o breswyllo parhaus yn y DU, mae deiliaid fisa BN(O) a'u teuluoedd yn gallu ymgeisio am Ganiatâd Amhenodol i Aros (CAA) a bod yn gymwys i ddinasyddiaeth lawn y DU ar ôl 12 mis o statws CAA.⁴ Mae ffioedd fisa yn amrywio yn ôl hyd arhosiad cychwynol. Mae fisa pum mlynedd yn £250 yr un a fisa deg mis ar hugain yn £180. I fod yn llwyddiannus, mae'n rhaid i ymgeiswyr hefyd ddangos modd ariannol drwy ddarparu tystiolaeth eu bod yn gallu cefnogi eu hunain a'u dibynyddion dros chwe mis cyntaf ar ôl cyrraedd, yn ogystal â thalu'r Gordal Iechyd Mewnfudo. Mae unrhyw BN(O) yn gallu ymgeisio i ddod i'r DU gyda'u teulu agosaf, gan gynnwys aelodau o'r teulu sy'n cyd-breswyllo sy'n ddibynnol ar y prif ymgeisydd am eu gofal. Bydd y cynllun fisa yn cael ei ymestyn yn yr Hydref 2022 i ganiatáu i bobl ifanc a anwyd ar ôl 1 Gorffennaf 1997 nad ydynt yn ddeiliaid fisa BN(O) i ymgeisio yn eu hawl eu hunain cyn belled â bod ganddynt o leiaf un rhiant BN(O).

Gellir gwneud ceisiadau yn ddigidol yn defnyddio Ap Gwirio Hunaniaeth Mewnfudo y DU': Gellir cael mynediad i hwn yn y DU neu dramor yn cynnwys Hong Kong gan unrhyw ymgeisydd gyda phasbort biometrig EEA BN(O) a phasbort biometrig HK SAR (ar ôl 2019). Ar gyfer ceisiadau nad ydynt yn ddigidol, mae'n rhaid i ymgeiswyr naill ai ymweld â Chanolfan Cais Fisa neu Wasanaethau Cais Visa a Dinasyddiaeth y DU (UKVCAS). Mewn ceisiadau oddi ar lein a digidol, mae'n rhaid rhoi tystiolaeth ar (i)

³Mae darpariaeth ar gyfer pobl gydag NRPF a Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill gan Lywodraeth y DU yn Lloegr ond nid yng Nghymru.

⁴ Mae Taflen Ffeithiau Llwybr Fisa BN(O) Hong Kong BN(O), a gyhoeddwyd gan dîm newyddion y Swyddfa Gartref yn darparu gwybodaeth fanwl am y cynllun fel ffioedd fisa, cymhwyster, proses ymgeisio a hawliadau.

statws deiliad fisa BN(O) neu (ii) y berthynas gyda deiliad BN(O). Dylai ymgeiswyr hefyd ddarparu tystysgrif prawf twbercwlosis dilys gan glinig a gymeradwywyd gan y Swyddfa Gartref.

2.2 Geo-ddosbarthu setliad

Roedd canlyniadau [arolwg pobl o Hong Kong ym Mhrydain \(2021\)](#) yn gweld bod yn well gan y mwyafrif helaeth oedd wedi cyrraedd yn ddiweddar Lloegr fel cyrchfan ar gyfer setlo yn y DU. Y lle uchaf a ffeirir yn y DU oedd Llundain yn cyfrif am 42% o'r ymatebwyr. Yr ail gyrcfan a ffeirir fwyaf oedd Manceinion (12%), gyda Birmingham a Bryste i ddilyn. Roedd ymatebion gan ymatebwyr yn awgrymu y gallai'r lleoliadau hyn a ffeirir fod yn seiliedig ar 'gynefindra' o 'enw' ac 'enw da' (HKB, 2021). Fodd bynnag, goblygiadau allweddol canfyddiadau o'r fath yw bod bobl o Hong Kong yn fwy tebyg o setlo mewn ardaloedd trefol yn hytrach nag ardaloedd gwledig. Hyd yma, yr 'Adroddiad Ble Bydd Bobl o Hong Kong yn aros ym Mhrydain' (HKB, 2021) yw'r unig ffynhonnell ar ble mae bobl o Hong Kong yn dymuno setlo. Mae ffigyrau yn dangos mai cyfran fach (1.5%) o gyraeddiadau oedd yn dweud yr hoffent ddod i Gymru (HKB, 2021). Roedd yr adroddiad yn canfod bod Caerdydd yn sgorio'n 24ain o'r cyngor lleol a ffeirir ar gyfer setlo (HKB, 2021). Mae crynodeb o'r awdurdod lleol mewn perthynas â bwriad setlo yn ddiweddarach yn yr adran demograffeg allweddol.

2.3 Pwy yw'r BN(O) yn y DU?

Yn 2021, roedd y Swyddfa Gartref wedi comisiynu Ymchwil [IFF](#) i gynnal astudiaeth mwy systematig: *Arolwg deiliaid fisa Gwladolion Prydeinig (Tramor) Hong Kong*. Nod yr astudiaeth oedd darparu cipolwg cychwynnol o ddemograffeg-cymdeithasol allweddol deiliaid fisa BN(O), eu priod a'u plant.⁵ Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd yn 2022 yn crynhoi prif ganfyddiadau demograffeg-gymdeithasol cyraeddiadau diweddar BN(O) Hong Kong. Mae cymhariaeth mwy manwl o'r canlyniadau hyn gyda'r rhai Arolwg Croeso yng Nghymru wedi'i gyflwyno yn yr adran cymhariaeth genedlaethol.

⁵ Mae'r arolwg yn cynnwys sampl ar hap o 500 o ddeiliaid fisa BN(O) sy'n byw yn y DU. Casglwyd data mewn dau gam yn Ebrill i Mai 2021 ac Awst i Medi 2021, pob un yn cyrraedd 250 o gyfranogwyr. Cafodd y canlyniadau eu pwysu gan oed, rhyw a pha un a oedd yn gais yn y sir/allan o'r sir, i adlewyrchu poblogaeth BN(O) deiliaid fisa cyffredinol. Y prif ymgeiswyr oedd wedi cael fisa BN(O) adeg ymchwil yn unig oedd wedi eu cynnwys yn y sampl.

Yn ôl [arolwg y Swyddfa Gartref](#), mae'r mwyafrif (61%) o brif ymgeiswyr fisa BN(O) oed gweithio rhwng 35 a 54, gydag ychydig mwy o ferched (52%) na dynion. Roedd bron pob un naill ai yn briod (72%) neu'n byw gyda phartner (27%), ac mae 90% yn byw gyda'u priod yn y DU ar hyn o bryd. Mae gan tua dwy ran o dair o'r BN(O) blant dibynnol, ac mae 93% o'r rhain yn blant sy'n cyd-breswyllo yn y DU. Yn ddiddorol, roedd 23% o'r ymatebwyr hefyd yn dweud bod ganddynt blant 18 oed neu hŷn yn byw gyda nhw. Mae'r rhan fwyaf o BN(O) yn weithwyr proffesiynol hynod gymwys gyda 69% â gradd neu radd uwch, 50% mewn swyddi rheoli neu broffesiynol, gyda 26% arall fel gweithwyr proffesiynol cysylltiol. Roedd bron pob un heblaw 2% yn bwriadu aros yn hirach na hyd eu fisa.

2.4 Heriau a brofwyd gan newydd-ddyfodiaid

Fel pob mewnfudwr sy'n datblygu bywyd newydd mewn lle dieithr, nid yw'n anodd dychmygu'r heriau amrywiol a brofir gan y newydd-ddyfodiaid diweddar hyn. Mae'r materion mwyaf cyffredin yn ymwneud â mynediad i dai fforddiadwy, cyflogaeth, gwasanaethau iechyd a hyfforddiant iaith.

Tai a Llety

Mae dod o hyd i rywle i fyw y prif flaenoriaeth ar ôl cyrraedd i'r rhan fwyaf o fewnfudwyr. Nid yw BN(O) Hong Kong yn eithriad. Fodd bynnag, mae'r sawl sydd heb ddigon o arian i brynu eiddo ar ôl cyrraedd yn dibynnu'n fawr ar rentu preifat gan nad oes ganddynt hawl i dai awdurdod lleol fel rhan o amod Dim Hawl Cyrchu Cronfeydd Cyhoeddus (DHCCC) ar eu fisa. Roedd tri chwarter o ymatebwyr arolwg a gynhaliwyd i bobl o Hong Kong ym Mhrydain yn dweud mai dod o hyd i lety oedd eu prif anhawster ar ôl cyrraedd (HKB, 2021). Prif rwystr cael mynediad i dai rhent oedd diffyg hanes credyd UD, geirda gan gyflogwr a landlord. Mae'r farchnad rhentu sydd wedi cyrraedd ei gapasiti yn gwaethygu'r anawsterau hyn ymhellach. Roedd llawer o landlordiaid a gwerthwyr tai wedi codi tâl am 12 mis o rent ymlaen llaw. O ystyried y ffaith bod llawer o bobl o Hong Kong eisoes wedi talu swm sylweddol ar eu ffioedd fisa a Thâl Ychwanegol Iechyd Mewnfudwyr (IHS), mae hyn yn creu rhwystr ariannol

sylweddol pellach iddynt ganfod tai o ansawdd a fforddiadwy. Mae [arolwg setliad UKHK](#) (2021) wedi canfod fod dwy ran o dair o bobl o Hong Kong oedd wedi eu cyfweld ganddynt yn bwriadu prynu eiddo o fewn y ddwy flynedd nesaf. Mae talu 12 mis o rent yn atal eu hyblygrwydd i brynu a mynd a'r arian roeddent wir ei angen ar gyfer blaendal a chost cysylltiol ar eiddo.

Cyflogaeth

Mae [arolwg cyflogaeth](#) pobl o Hong Kong ym Mhrydain yn helpu i ddarparu gwybodaeth gychwynnol ar integreiddio'r newydd-ddyfodiaid diweddar gan y farchnad lafur. Mae'r arolwg yn nodi bod ymfudwyr o Hong Kong yn hynod gymwys, gydag ychydig dros dwy ran o dair (69.2%) o ymatebwyr wedi derbyn addysg brifysgol neu uwch (HKB, 2021). Mae hyn yn gyson gyda chanfyddiadau arolwg cenedlaethol y Swyddfa Gartref yn 2021 yn ogystal ag astudiaethau eraill⁶. Er gwaethaf bod yn hynod gymwys, 30.8% yn unig o newydd-ddyfodiaid diweddar oedd wedi llwyddo i ddod o hyd i waith, gyda'r mwyafrif helaeth (94.4%) wedi gadael eu swydd flaenorol yn Hong Kong (HKB, 2021). Rheswm hanfodol pam bod newydd-ddyfodiaid diweddar heb gael gwaith yw'r amser aros am rifau yswiriant gwladol (NINOs). Mae hyn wedi'i gymhlethu gan rwystrau eraill fel diffyg gallu siarad Saesneg, diffyg cymwysterau perthnasol neu sgiliau a phroblemau yn profi'r hawl i weithio (HKB, 2021) am beidio gallu cael gwaith. Mae mater cyffredin arall yn ymwneud â methu trosglwyddo eu cymwysterau Hong Kong mewn rhai galwedigaethau fel addysgu a chreffft (plymwyr, trydanwyr neu addurnwyr) ([Rolfe and Chan, 2022](#)).

Mynediad i Wasanaethau Gofal Iechyd

Roedd mynediad i Wasanaeth Iechyd Gwladol yn arfer bod am ddim i holl ymwelwyr tramor gan gynnwys myfyrwyr rhyngwladol a phobl ar fisa gwaith dros dro. Cafodd hyn ei ddileu gan lywodraeth y Ceidwadwyr yn 2015 wnaeth gyflwyno'r Gordal Iechyd Mewnfudo (GIM) i holl ymwelwyr yn aros mwy na chwe mis yn y DU, yn seiliedig ar y ffaith y byddai'n atal 'twristiaeth gofal iechyd'. Mae'r IHS yn amod ynghlwm â Chynllun

⁶ Gweler er enghraifft yr arolygon a gynhaliwyd gan UKHK (Welcome Churches) yn 2021 a 2022, <https://ukhk.org/survey>

Fisa BN(O). Mae'n rhaid i ymgeiswyr dalu'r tâl cais fisa yn ogystal â'r IHS cysylltiol i bob aelod yn y teulu adeg gwneud cais. Cost blynyddol y gordal yw £623 i oedolion a £470 i'r sawl o dan 18 oed. Mae hwn yn gost ymlaen llaw ac ni ellir ei dalu mewn rhandaliadau. Mae'r swm sy'n daladwy yn dibynnu ar hyd y fisa yr ymgeisiwyd amdano. Er enghraifft, byddai cwpl gyda dau o blant oed ysgol sy'n ymgeisio am fisa pum mlynedd yn talu £10,940 i gael mynediad i wasanaethau GIG yn unig.⁷ Ers i nifer fawr o bobl o Hong Kong brofi lefel digynsail o drawma o ganlyniad i'r cosbi ar brotestiadau democrataidd yn 2019 ac mewn rhai achosion creulondeb yr heddlu, mae mynediad i ofal iechyd o ansawdd, yn arbennig gwasanaethau iechyd meddwl yn hanfodol ar gyfer y bobl o Hong Kong yn y DU.

Sgiliau Saesneg a Mynediad i Ddosbarthiadau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill

Mae diffyg hyfedredd ieithyddol yn brif rwystr i integreiddio mewnfudwyr a ffoaduriaid yn y wlad ble maent yn setlo. (Cheung and Heath, 2007, Phillimore, 2011, Cheung and Phillimore, 2014). Mae mynediad i ddosbarthiadau Saesneg yn hanfodol i bobl o Hong Kong i drawsnewid i gyflogaeth a'u bywyd bob dydd. Roedd y Sefydliad Dysgu a Gwaith wedi nodi tri 'llwybr dysgu' ar gyfer ymfudwyr Hong Kong sy'n cyrraedd ym Mhrydain: Cefnogaeth Saesneg fel Iaith Ychwanegol mewn ysgolion; cefnogaeth iaith i fyfyrwyr mewn addysg uwch; a dosbarthiadau Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill. Mae'r ddau lwybr cyntaf yn bwysig i blant deiliaid fisa tra bod dosbarthiadau Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill yn llawer mwy pwysig i oedolion. Rhesymau am fod angen dosbarthiadau Saesneg ychwanegol gan gynnwys dod o hyd i waith addas i'w lefel sgiliau, cynnydd addysgol, helpu plant gyda'r ysgol, mynediad i iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, tasgau bob dydd fel siopa ac integreiddio cyffredinol i gymunedau lleol (Rolfe and Stevenson, 2021).

Mae cyllid a darpariaeth ar gyfer dosbarthiadau ESOL ar draws y DU ar ei orau yn anghyson ers ei ddatganoli i wahanol genedlaethau ac awdurdodau lleol. Yn wahanol i'r rhan fwyaf o ffoaduriaid⁸, does gan BN(O)au HK Ddim Hawl Cyrchu Cronfeydd

⁷ Fodd bynnag, nid yw cofrestru gyda meddyg teulu yn dibynnu ar statws cenedligrwydd neu mewnfudo ac nid yw angen tystiolaeth o gyfeiriad.

⁸ Mae rhai ffoaduriaid â NRPF fel amod gadael.

Cyhoeddus (DHCCC) ac felly nid ydynt yn gymwys i ddsbarthiadau Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill am ddim. Mae cronfeydd ar gyfer dosbarthiadau ESOL yn Lloegr yn £850 yr un ond mae lefel cyllid yn wahanol mewn gwledydd datganoledig, ble mae arian ar gael i gefnogi ESOL neu ddarpariaeth arall fel Flash Academy. Nid yw dosbarthiadau ESOL wedi eu dylunio'n benodol ar gyfer ymfudwyr o Hong Kong. Mae llawer o Affganiaid, ffoaduriaid o Wcráin a gwledydd eraill hefyd yn eu derbyn. Felly, mae anghenion cyfranogwyr ESOL yn gallu amrywio yn sylweddol. Mae llawer o BN(O) Hong Kong eisoes yn gallu siarad Saesneg ac felly gall eu hangen am ESOL canolradd ac uwch neu ddsbarthiadau Saesneg proffesiynol fod yn uwch. I'r sawl sy'n methu cael mynediad i ddsbarth ESOL, mae darpariaeth sector preifat yn gyffredin ar draws y sir. Mae hygyrchedd wedi'i atgyfnerthu gyda'r rhan fwyaf o ddsbarthiadau preifat yn cael eu darparu ar-lein. Sylwyd bod cyrsiau ar-lein yn effeithiol ar gyfer datblygu sgiliau darllen ac ysgrifennu, roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo eu bod wedi eu cyfyngu ar gyfer sgiliau siarad a gwrando (Rolfe and Stevenson, 2021). Mae BN(O)au Hong Kong yn profi llawer o'r heriau hyn sydd wedi cyrraedd yng Nghymru ers 2021. Bydd yr adran nesaf yn cyflwyno prif ganfyddiadau Arolwg Croeso yng Nghymru.

3. Dulliau a Chasglu Data

Er mwyn deall anghenion ymfudwyr o Hong Kong yn ddiweddar, roedd Partneriaeth Mudo Strategol Cymru (WSMP) wedi comisiynu Arolwg Croeso yn 2022. Yn ogystal â chasglu gwybodaeth demograffeg-gymdeithasol sylfaenol am y bobl o Hong Kong, nod yr arolwg hefyd oedd nodi eu rhesymau am symud i Gymru, lleddfu neu anhawster addasu i fywyd yng Nghymru a mynediad i wasanaethau, yn ogystal â'r math o gefnogaeth integreiddio maent ei angen.

Cafodd yr holiadur ei fodelu yn dilyn arolwg gan Gonfensiwn Awdurdodau Lleol yr Alban. Cafodd y cwestiynau demograffig eu halinio gyda chwestiynau monitro cydraddoldeb safonol a chwestiynau Cyfrifiad 2021 i ganiatáu cymhariaeth gydag arolygon eraill. Roedd yr arolwg yn casglu data ansoddol a meintiol. Cafodd yr holiadur drafft ei anfon at fudd-ddeiliaid allweddol ar gyfer sylwadau⁹ ac adolygwyd yn dilyn adborth. Ar ôl cwblhau'r holiadur, cafodd [Data Cymru](#) ei gomisiynu i gynnal yr arolwg ar-lein a chymharu ymatebion a chanlyniadau'r arolwg mewn adroddiad sylfaenol. Agorodd yr arolwg ar 24/5/22 a chau ar 21/6/22 ac roedd ar gael mewn Tsieineaidd Traddodiadol, Cymraeg a Saesneg. Cafodd yr arolwg ei hyrwyddo ar dudalen gwe Canolbwynt Croeso Cynllun BN(O) Hong Kong WSMP ac i grwpiau cymunedol ac unigolion allweddol.¹⁰

Roedd yr arolwg wedi derbyn 153 o ymatebion i gyd gyda 145 wedi eu cwblhau ac 8 wedi eu cwblhau yn rhannol. Roedd dwy ran o dair o ymatebwyr wedi ateb mewn Tsieineaidd Traddodiadol ac un rhan o dair mewn Saesneg. Ni chwblhawyd unrhyw holiadur yn y Gymraeg.




⁹ Mae'r rhain yn bennaf yn grwpiau cymunedol pobl o Hong Kong yng Nghymru, Data Cymru ac aelodau o Weithgor Cynllun BN(O) Aml Asiantaeth WSMP.

¹⁰ Casglwyd data yn defnyddio sampl cyfleus; heb fod ar hap fel na ellir gwneud casgliadau ystadegol. Roedd y sampl (N=153) hefyd yn rhy fach i gynnal dadansoddiad amlamrywedd.

3/10 o ymatebwyr wedi ateb yn **Saesneg**, gyda 70% mewn **Tsieineaidd**

Traddodiadol.

Roedd rhai cwestiynau yn yr arolwg yn gwahodd cyfranogwyr i roi ymatebion agored. Roedd yr ymatebion mewn Tsieineaidd Traddodiadol wedi eu cyfieithu i'r Saesneg at ddiben yr adroddiad hwn. Mae'n bwysig nodi er bod llawer o ymatebwyr wedi dod o dan y cynllun fisa BN(O), nid yw rhai wedi:



9/10 o ymatebwyr yn **ddeiliaid fisa BN(O)**, gyda 7% heb fisa BN(O) a'r


gweddill yn dewis peidio dweud. Mae'n bosibl bod rhai sydd ddim yn BN(O) eisoes wedi derbyn dinasyddiaeth Brydeinig a roddwyd i rai gweithwyr allweddol pan ddychwelwyd sofraniaeth Hong Kong i Tsieina yn 1997.¹¹ Roedd nifer o'r deiliaid pasbort Prydeinig hyn wedi dewis peidio gadael Hong Kong nes gosod y Ddeddf Diogelwch Cenedlaethol yn 2020.

Cafodd Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd ei gomisiynu i gynnal dadansoddiad data mwy manwl a llunio adroddiad arolwg. Mae canfyddiadau o'r dadansoddiad o'r arolwg ac argymhellion wedi eu bwriadu i lywio polisi a chynllunio gwasanaeth yn y meysydd yr oedd pobl Hong Kong yn eu hystyried yn bwysig iddyn nhw, yn arbennig targedu darpariaeth gwasanaeth ar gyfer ail flwyddyn prosiect Cynllun Fisa Gwladolion Hong Kong.

¹¹ Roedd cyflafan Sgwâr Tiananmen yn 1989 wedi gweld ymadawiad bobl o Hong Kong dosbarth canol uwch hynod gymwys yn ymfudo i Awstralia, Canada a Seland Newydd, oedd yn cael ei ystyried yn fgythiad difrifol i'r economi. I ddarparu 'allanfa ddiogel' (neu "basbort i aros") ar gyfer yr elít yn Hong Kong, roedd Deddf Gwladolion Prydeinig (Hong Kong) (1990) yn cynnig dinasyddiaeth lawn, ar system seiliedig ar bwyntiau, gyda'r hawl i gartref ym Mhrydain i 50,000 o weithwyr allweddol Hong Kong a ystyriwyd yn hanfodol i lwyddiant economaidd parhaus y drefedigaeth tan 1997.

4. Canfyddiadau'r Arolwg

4.1 Cymhelliant ar gyfer Symud



Ffigur 4.11: Cymhelliant ar gyfer symud i Gymru

Mae ffigur 4.1.1¹² yn darparu'r dystiolaeth gyntaf o ffactorau cymhellol i symud i Gymru ymhlith ymfudwyr diweddar o Hong Kong. Darparwyd chwech dewis ar gyfer ffactorau cymhelliant: Diwylliant Cymreig, cysylltiadau â chymunedau Hong Kong yng Nghymru, cyswllt teulu, tai a llety, cyfleoedd gwaith ac ysgolion. Y ddau gymhelliant mwyaf amlwg dros symud i Gymru ymhlith ymatebwyr oedd tai (96% o ymatebwyr) a chyfleoedd gwaith (78% o ymatebwyr). Fel y gwelir yn Ffigur 4.1.1 mae pump o'r chwech ffactor yn cael eu hystyried yn bwysig gan dros hanner yr ymatebwyr. Yr unig eithriad i hyn yw cyswllt teulu, oedd yn bwysig i 45% o ymatebwyr. Y trydydd cymhelliant mwyaf pwysig dros symud i Gymru oedd diwylliant Cymreig/cydnawsedd â Chymru gyda 69% o ymatebwyr yn eu hystyried yn bwysig. Roedd dros hanner ymatebwyr (56.4%) yn ystyried ysgol yn ffactor cymhelliant pwysig ar gyfer symud i Gymru. Nid yn annisgwyl, mae'r ffigur hwn yn uwch ymhlith rhieni, gan gyrraedd 85% o'i gymharu â holl ymatebwyr. Yn ogystal, roedd ymatebwyr hefyd yn sôn o dan

¹² Mae holl ddata yn yr adran hon o'r Arolwg Croeso Cymru oni bai y nodwyd yn wahanol.


“rhesymau eraill” bod yr amgylchedd yn brif reswm dros symud i Gymru: “gwell tywydd arfordirol”, “hawdd cael mynediad i’r môr”, “cynhesach yn y de” a “llawer o fynyddoedd”. Roedd costau byw ac integreiddio “aml-hiliol/diwylliannol wedi eu crybwyll ambell waith.

4.2 Demograffeg

Yn yr adran hon mae prif nodweddion demograffig ymfudwyr diweddar o Hong Kong yng Nghymru yn cael eu disgrifio. Mae’r rhain yn amrywio o geo-ddosbarthu ymfudwyr, oed, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a statws priodasol/perthynas a strwythur teulu. Mae llawer o ddemograffig allweddol yn cael eu cymharu gyda’r darlun ehangach ledled y wlad yn Adran 5 yn yr adroddiad hwn.


Geo-Ddosbarthiad

Mae Cymru yn cynnwys 22 awdurdod lleol yn gweithredu mewn pedwar rhanbarth heddlu gwahanol: Dyfed-Powys, Gwent, De Cymru a Gogledd Cymru. Mae geo-ddosbarthiadau ymatebwyr yn cael eu cyflwyno yn seiliedig ar yr awdurdodau lleol hyn yn hytrach na phentrefi, trefi a dinasoedd penodol.



Ffigur 4.21: Geo-ddosbarthu ymatebwyr

Fel y gwelir o Ffigwr 4.2.1 mae mwyafrif helaeth o ymatebwyr wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd (73.8%). I'r gwrthwyneb, nid oedd unrhyw ymatebwyr i'r arolwg yn dweud eu bod yn byw yn yr awdurdodau lleol mwy gwledig: Ynys Môn, Gwynedd, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam, Powys, Ceredigion, Sir Benfro, Merthyr Tudful a Thorfaen. Mae pob un o'r awdurdodau lleol eraill yn cynnwys llai na 10% o ymatebwyr, gyda chyfrannau ychydig uwch i'w gweld yn Abertawe (6.2%), Rhondda Cynon Taf (4.8%), Bro Morgannwg (4.1%), Caerffili (2.8%) a Chasnewydd (2.1%). Mae pob un o'r awdurdodau lleol hyn, ynghyd â Chaerdydd wedi eu lleoli yn Ne Cymru. Roedd cyffredinolrwydd is ym Mhenybont-ar-Ogwr, Sir Gaerfyrddin, Blaenau Gwent (y cyfan yn cyfrif am 1.4%); a 0.7% yng Nghonwy, Port Talbot a Sir Fynwy. Mae gwahaniaethau yn amlwg rhwng ble roedd newydd-ddyfodiaid wedi ymgartrefu o'i gymharu â'r cyrchfan a ffefrir ganddynt. Mae ffigwr 4.2.2 yn cymharu canfyddiadau'r adroddiad hwn gyda ble rhagwelir mae newydd-ddyfodiaid yn ymgartrefu o bobl Hong Kong ym Mhrydain (2021).



Ffigur 4.2.2: Cyrchfannau geo-ddosbarthiad a ffefrir a ble wnaethant symud



Er mai'r cyrchfan a ffefrir¹³ i'r mwyafrif o newydd-ddyfodiaid oedd Caerdydd (35.3%), mae canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn nodi bod y graddau yn llawer mwy nag yr oedd HKB wedi'i amcangyfrif (73.8%). Roedd diffyg cyfatebiaeth tebyg yn amlwg yn

¹³ Ffynhonnell: Ble fydd bobl o Hong Kong yn aros ym Mhrydain? Adroddiad Arolwg ar Gyrchfannau a Ffefrir gan Newydd-ddyfodiaid BN(O) Hong Kong (HKB, 2021)

Abertawe, gyda ffigyrau'r adroddiad hwn (6.2%) 11.4% yn is nag amcangyfrifon HKB (17.6%). Roedd y diffyg cyfatebiaeth sylweddol olaf yng Nghasnewydd, ble roedd HKB yn goramcangyfrif y nifer o gyraeddiadau yn 8.2%. I grynhoi, mae cyrchfannau a ffefrir gan ymatebwyr i ddechrau a adroddwyd gan HKB (2021) yn rhagweld dosbarthiad mwy gwastad o anheddiad ar draws Cymru, gydag ardaloedd trefol eraill fel Casnewydd ac Abertawe yn cynnwys cyffredinolrwydd uwch o newydd-ddyfodiaid. Yn ogystal, roedd y cyrchfan a ffefrir hefyd yn amcangyfrif niferoedd uwch o newydd-ddyfodiaid mewn mwy o awdurdodau lleol gwledig fel Sir Fynwy. Yn hytrach, mae canlyniadau o arolwg Croeso Cymru yn nodi boc

Mae canlyniadau yn nodi bod yna ychydig mwy o ymfudwyr benywaidd (57%) o Hong Kong yng Nghymru nag o ddynion (41.6%). Roedd cwestiynau arolwg dilynol yn archwilio pa un a oedd ymatebwyr yn nodi eu bod yn drawsrywiol, neu rhyw gwahanol i'r hyn a bennwyd ar eu genedigaeth. Roedd bron pob ymatebwr (99%) yn nodi yr un rhyw a bennwyd adeg genedigaeth, gyda gweddill yr ymatebwyr yn


Roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn nodi eu hunain yn heterorywiol (86.2%), gyda 4.2% o ymatebwyr deurywiol, 1.4% o ymatebwyr hoyw a 0.7% o ymatebwyr lesbiaidd. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn nodi cyfeiriadedd rhywiol 'arall' (1.4%). Roedd yn well gan gyfran fechan o ymatebwyr (6.2%) beidio datgelu eu cyfeiriadedd rhywiol.



Ffigur 4.2.4: Dosbarthiad cyfeiriadedd rhywiol

¹⁴Nid yw pob canran yn dod i gyfanswm o 100, oherwydd dalgrynnu, mae hyn yn gyson drwy'r adroddiad.

Crefydd



Ffigur 4.2.5: Religious Identity

Roedd bron hanner yr ymatebwyr (49%) yn nodi eu bod yn Gristion (pob enwad), gyda chyfran fechan yn dweud bod ganddynt grefydd arall - Bwdhydd (5%) a Taoydd (1.5%). Roedd tua pedwar o ymatebwyr (43%) yn dweud eu bod yn anghrefyddol neu'n anffyddiwr Mae'r nifer uchel o Gristnogion yn cynnwys rhai goblygiadau wrth ystyried sut mae ymfudwyr wedi setlo. Er enghraifft, roedd llawer o ymatebwyr yn nodi bod mynd i'r eglwys yn adnodd buddiol i ddatblygu sgiliau Saesneg ac integreiddio cyffredinol yn y diwylliant lleol:



Rwy'n gweithio gyda'r bobl leol ac yn ymuno â'r cymunedau lleol fel yr eglwys, grwpiau gwirfoddoli a chlwbiau chwaraeon




(er mwyn gwella fy Saesneg, rwyf) yn gwyllo rhaglenni Saesneg ar y teledu, dychwelyd i'r eglwys Saesneg (a) chyfathrebu gyda phobl Brydeinig



Cafodd y teimladau hyn eu harchwilio ymhellach mewn dadansoddiadau dilynol oedd yn cymharu Cristnogaeth gyda sgiliau iaith Saesneg ac addasu i fywyd yng Nghymru. Mae'r canlyniadau yn nodi bod 6% yn fwy o Gristnogion wedi dweud fod ganddynt sgiliau Saesneg da o'i gymharu â rhai nad ydynt yn Gristnogion. Fodd bynnag, ni chanfuwyd gwahaniaeth mawr rhwng Cristnogion a rhai nad ydynt yn Gristnogion o ran hapusrwydd cyffredinol neu addasu i fywyd yng Nghymru.

Oedran

Y grŵp oedran mwyaf cyffredin yw 25-44 (50.7%), gyda 45-64 yn dilyn yn agos (46%) sy'n nodi bod y mwyafrif o ymatebwyr o fewn oedran gweithio. Mae'r sawl yn y grwpiau oedran 16-24 neu 65+ yn cynnwys 1.4% yn unig o'r sampl, gyda chyfran bach (0.7%) yn dewis peidio dweud.




Ffigur 4.2.6: Dosbarthiad oed

4.3 Statws Priodasol/Partneriaeth a strwythur teuluol

Statws Partneriaeth

Ar gyfer statws priodasol/partneriaeth a strwythur teulu ymfudwyr diweddar o Hong Kong yng Nghymru, mae tri dimensiwn yn cael eu harchwilio: (1) statws partneriaeth, (2) statws magu plant a (3) plant ac oedolion sy'n ddibynnol yn yr aelwyd.




Ffigur 4.3.1: Statws Partneriaeth

Fel y gwelir yn Ffigur 4.3.1 mae'r mwyafrif o ymatebwyr yn briod (77.2%). Roedd ychydig o dan 16% o holl ymatebwyr yn nodi eu bod yn sengl. Mae tua 52% o ymatebwyr sengl yn ferched gyda 43% yn ddynion. Mae'r dadansoddiad economaidd


o ymatebwyr sengl yn 43% cyflogedig, 30% di-waith, 17% o fyfyrwyr (y cyfan yn ddynion) a 4% wedi ymddeol. Roedd ymatebwyr sy'n byw gyda phartner (4.1%) neu bartneriaeth sifil (0.7%) yn cyfrif am tua 5% o holl ymatebwyr. Gyda'i gilydd, roedd 82% o'r ymatebwyr naill ai yn briod neu mewn perthynas cwpl. Nid oedd yr un o'r ymatebwyr wedi gwahanu nac yn ŵr na gwraig weddw, gyda chyfran fach wedi ysgaru (0.7%). Roedd yn well gan weddill yr ymatebwyr beidio ateb (1.4%).

Statws Rhieni:



Ffigur 4.3.2: Statws Rhieni

Mae ychydig o dan hanner holl ymatebwyr yn rhieni (44%) ac roedd hyn yn gyson rhwng y ddau ryw (Ffigur 4.3.2). Roedd cyfran uchel o holl ymatebwyr priod wedi priodi (58%) gyda nifer hynod isel o rieni sengl nad oedd erioed wedi priodi (1.5%).




Ffigur 4.4.1: Plant sy'n ddibynnol ac oedolion sy'n ddibynnol yn yr aelwyd

Mae'r siartiau cylch yn Ffigur 4.4.1 yn dangos preswylwyr sy'n blant (o dan 18 oed) ac oedolion sy'n breswylwyr (ADR) (18+) sy'n byw gyda'r ymatebwyr i'r arolwg. Y nifer mwyaf cyffredin o blant fesul aelwyd yw un (27%) gyda dau i ddilyn (24%). Mae gan gyfran fechan o ymatebwyr dri neu fwy o blant yn byw gyda nhw (2%). Nid oes gan y rhan fwyaf o ymatebwyr unrhyw ADR yn byw gyda nhw (80%). Mae'r sawl â chyd-breswylwyr ADR yn tueddu i gael un yn unig (17.7%) gyda chyfran fechan iawn gyda dwy (3.2%).

4.4 Tai a Llety

Fel yr adroddwyd mewn arolygon eraill ¹⁵, mae canfod tŷ i fyw ynddo yn brif flaenoriaeth ar ôl cyrraedd ymhlith pobl o Hong Kong ond roedd llawer yn cael anhawster. Mae tri dimensiwn yn cael eu harchwilio yma: daliadaeth tai, preswilydd fesul aelwyd, pryderon a rhwystrau i dai fforddiadwy.



Ffigur 4.4.2: Daliadaeth Tai

Mae ffigur 4.4.2 yn dangos mai'r ddaliadaeth mwyaf cyffredin yw rhentu (42.9%), gyda pherchen-feddiannaeth i ddilyn (26%) ac yn bwriadu bod yn berchen (22%). Mae'n werth nodi bod y mwyafrif o'r sawl sy'n bwriadu bod yn berchen yn fwy tebyg

¹⁵ Gweler er enghraifft arolygon UKHK a HKB yn 2021 a 2022.

o fod yn rhentu ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu bod rhentwyr presennol yn gyffredinol yn debyg o fod dros hanner holl ymatebwyr. Roedd nifer fechan o ymatebwyr yn dweud eu bod yn aros mewn gwesty (3.4%) neu gyda ffrindiau (3.4%). Yn genedlaethol, roedd arolwg UKHK (2021) yn nodi bod dwy ran o dair o’u hymatebwyr yn bwriadu prynu o fewn dwy flynedd ar ôl cyrraedd, cyfran sylweddol uwch na’r rhai yn Arolwg Cymru. Mae asedau a chyfoeth pobl o Hong Kong yn amrywio yn sylweddol ac roedd yr astudiaeth *Setlo i mewn* yn gweld bod y sawl â chyllideb mwy cyfyngedig yn dewis lleoliadau mwy fforddiadwy fel De Cymru (Rolfe and Chan, 2022)



Ffigur 4.4.3: Nifer o breswylwyr fesul aelwyd

Y nifer mwyaf cyffredin o breswylwyr fesul aelwyd yw pedwar (29%) i ddilyn yn agos gan dri (28%) a dau (26%). 11% yn unig o’r ymatebwyr sy’n byw eu hunain. Mae aelwydydd mawr gyda phump neu fwy o breswylwyr yn brin (7%). Hefyd, mae tua 69% o ymatebwyr sengl yn byw eu hunain, gyda’r 31% arall yn byw gydag un neu fwy o breswylwyr eraill. Mae dadansoddiad pellach o aelwydydd sengl yn dangos bod ychydig mwy o aelwydydd sengl yn cynnwys merched (53%) na dynion (46%) ac yn bennaf yn ymatebwyr 25-44 (60%) a 45-64 (40%). Roedd dadansoddiad statws economaidd o aelwydydd sengl yn fyfyrwyr (13%), cyflogedig (46%), di-waith (33%) ac wedi ymddeol (0%). Yn ddiddorol, roedd dosbarthiad cyfartal wedi’i nodi ar gyfer ymatebwyr priod a sengl yn byw mewn aelwydydd sengl (46%). Mae’n bosibl bod un o bartneriaid rhai ymatebwyr priod wedi penderfynu symud i’r DU yn gyntaf gyda gweddill y teulu yn ymuno’n ddiweddarach. Nid oedd unrhyw rieni yn yr arolwg yn byw eu hunain.

Anawsterau cael Mynediad i Dai Fforddiadwy

Pan ofynnwyd pa mor hawdd oedd cael mynediad i wasanaethau, roedd dros hanner (54%) o ymatebwyr yn dweud ei fod naill ai'n anodd neu'n anodd iawn dod o hyd i dai priodol (Ffigur 4.9.1). Roedd cyfran fechan yn ei weld yn hawdd (27%) gyda gweddill yr ymatebwyr ddim yn ei weld yn hawdd nac yn anodd. Mae'r dosbarthiad hwn yn nodi bod tai wedi bod y rhwystr sefydliadol mwyaf anodd a wynebwyd gan bobl o Hong Kong yn cyrraedd yng Nghymru yn ddiweddar. Mae hyn yn achosi llawer o bryder, o ystyried bod tai yn un o'r ysgogiadau mwyaf cryf ar gyfer ymfudo i Gymru (Ffigur 4.1.1). Roedd dadansoddiad pellach yn dangos bod y rhai wnaeth gyrraedd yn ddiweddar wedi cael mwy o anhawster yn cael mynediad i dai priodol y rhai oedd yn rhentu (64%). Roedd y rhesymau mwyaf cyffredin dros anhawster anghymesur a brofwyd gan rentwyr yn gyson gyda chanfyddiadau ar draws y wlad (DU):

“ Mae llawer o landlordiaid angen i ni ddangos tystiolaeth o hanes blaenorol yn y DU. Mae hynny'n amhosibl i ni. ”

“ Mae landlordiaid angen i ni ddangos y cyfeiriadau o hanes rhentu blaenorol yn y DU. Fel arall. Mae'n rhaid i ni dalu 6-12 mis o rent. Nid yw'n gwneud synnwyr. ”

Oherwydd diffyg hanes credyd a rhentu Prydeinig, gofynnwyd i rai ymatebwyr dalu rhent blwyddyn ymlaen llaw gan eu landlordiaid. Yn wahanol i'r Alban, ble mae polisiau rhentu yn cyfyngu ar rent ymlaen llaw i chwe mis, mae newydd-ddyfodiaid diweddar o Hong Kong yng Nghymru mewn llety rhent preifat yn llawer gwaeth allan o'i gymharu â'u cyfoedion yn yr Alban. Roedd ymatebwyr wedi nodi ymhellach bod talu hyd at flwyddyn o rent ymlaen llaw bron yn amhosibl, yn arbennig wrth ystyried ffactorau fel anawsterau dod o hyd i gyflogaeth a'r argyfwng costau byw.

“ Cais y banc yw darparu cyfeiriad tra rydym angen i'r banc drosglwyddo arian i'r landlord. Nid yw'n gwneud synnwyr. ”

“ Mae pris tai yn llawer uwch na'r disgwyl. Mae mor anodd dod o hyd i dŷ rhent ar y dechrau hyd yn oed os ydym yn fodlon talu 12 mis o rent ymlaen llaw gan nad oes gennym swyddi yma. ”

Mae'r dyfyniad uchod yn rhoi tystiolaeth bellach o sut mae'r system bresennol yn gwaethygu'r anawsterau rhentu. Eglurodd yr ymatebwr er mwyn trosglwyddo'r rhent blynyddol i'w landlord, roedd eu banc yn gofyn am gyfeiriad bilio. Fodd bynnag, oherwydd nad oeddent wedi symud i mewn i'r tŷ eto, nid oeddent yn gallu ei ddarparu. Mae hyn yn dangos yr amryw o rwystrau mae'r sectorau bancio a rhentu preifat yn eu cyflwyno i newydd-ddyfodiaid i'r wlad. Mae llawer o'r tâp coch yn groes i'r graen ac mewn rhai achosion, yn amhosibl ar gyfer gweithredu. Ar hyn o bryd, mae polisïau o'r fath yn cael eu hystyried yn gwahaniaethu ac yn atal nid yn unig bobl o Hong Kong, ond hefyd llawer o ymfudwyr o wledydd eraill rhag dod o hyd i dai addas.

Mae rhai atebion testun agored yn yr arolwg hefyd yn awgrymu y gall gwahaniaethu ddigwydd:



.... ddim yn siŵr os oedd y galw mor uchel â hynny neu os oedd asiantaethau eiddo yn ein sgrinio allan o ymweld. Roeddwn yn ymweld â'r gwefannau eiddo yn gyson ac yn cysylltu â nhw ar unwaith ar ôl gweld tai rhent oedd ar gael, ond maent bob amser yn ymateb gan ddweud eu bod wedi eu rhentu yn barod



....landlord wedi gofyn am flwyddyn o rent ymlaen llaw (wrth adnewyddu contract dwy flynedd), hyd yn oed ar ôl i mi dalu'r swm hwnnw yn y flwyddyn gyntaf




Ar nodyn cadarnhaol, daeth y [Ddeddf Tai Rhent yng Nghymru](#) i rym ar 1 Rhagfyr 2022 gan roi mwy o hawliau a gwarchod tenantiaid a gall mwy o gyfrifoldebau landlordiaid helpu i wella sefyllfa pobl o Hong Kong wrth geisio dod o hyd i lety o ansawdd a fforddiadwy.

4.5 Addysg a Chyflogaeth

Gan droi at addysg a chyflogaeth yr ymatebwyr, mae pump dimensiwn allweddol yn cael eu hystyried: cymhwyster addysgol, gweithgaredd economaidd, cyfradd cyflogaeth, pryderon cyflogaeth a sectorau diwydiannol.


Cymwysterau Addysg

Mae ffigur 4.5.1 yn dangos bod y mwyafrif o ymatebwyr (61%) wedi derbyn addysg brifysgol neu uwch, mae 37% o ymatebwyr wedi derbyn cymwysterau uwchradd (TGAU neu debyg) neu uwchradd uwch (safon uwch neu ôl-uwchradd). Roedd yn well gan 2% arall beidio ateb.



Ffigur 4.5.1: Lefelau Cymhwyster


Gweithgaredd Economaidd



Ffigur 4.5.2: Gweithgaredd economaidd


Roedd llai na hanner holl ymatebwyr yn gyflogedig (45.5%) adeg yr arolwg. Mae'n bwysig nodi mai nid hwn yw'r diffiniad swyddogol o gyfraddau cyflogaeth neu ddi-

weithdra, oherwydd nad oedd yr holl ymatebwyr yn weithgar yn economaidd. Mae hyn yn cynnwys unigolion sy'n fyfyrwyr (4.3%), bobl sydd wedi ymddeol (8.5%) neu'r sawl nad oedd yn gallu gweithio (5%). Mae'r rhesymau dros beidio gallu gweithio yn cynnwys cyfrifoldebau gofal plant, cyflyrau corfforol neu feddyliol ac o dan yr oed gweithio. Roedd cyfran fechan o ymatebwyr wedi dewis y categori arall (1.4%) neu'n dewis peidio dweud (2.8%). Mae cyfradd cyflogaeth 60% ymhlith newydd-ddyfodiaid diweddar o Hong Kong 14% yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru (74%)¹⁶:



60%

Ymhlith y di-waith, mae'r mwyafrif helaeth (82%) yn chwilio am waith yn gyson. Canfyddiad sy'n achosi pryder mawr yw mai 23.1% yn unig sy'n ei chael hi'n 'hawdd' neu'n 'gymharol hawdd' i ddod o hyd i waith (Ffigur 4.9.1) Mae hyn yn cyflwyno diffyg cyfatebiaeth amlwg gyda'r canfyddiad ar gymhelliant i symud i Gymru, ble mae bron 80% o ymatebwyr yn nodi bod cyfleoedd gwaith yn ffactor pwysig ar gyfer symud. Mae'r canfyddiadau hyn yn cael eu cadarnhau gan dystiolaeth a gasglwyd yn yr eitemau pryder:



5/10 O Ymatebwyr yn bryderus eu bod angen **cefnogaeth gyda chyflogaeth**.

Yn y cwestiynau agored, roedd ymatebwyr yn darparu rhywfaint o gipolwg i pam eu bod yn bryderus am gael gwaith, ynghyd â'u rhesymau am beidio bod yn llwyddiannus eto.



Rwyf wedi bod mewn llawer o ffeiriau swyddi ac rwyf wedi gadael fy ngwybodaeth ond nid wyf wedi derbyn unrhyw ymateb. Efallai gan fy mod yn oedolyn hŷn, gwahaniaethir



¹⁶ Yn gyson gyda diffiniad Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO), rydym yn cyfrif cyfraddau cyflogaeth yn ôl canllawiau Swyddfa Ystadegau Gwladol drwy rannu'r nifer o bobl 16 oed neu hŷn mewn cyflogaeth (gweithiwr neu'n hunan-gyflogedig) gyda'r boblogaeth sy'n weithgar yn economaidd (cyflogedig a di-waith) (ONS, 2020)

Mae'r dyfyniad hwn yn nodi y gall rhywfaint o ragfarn oed fodoli ymhlith cyflogwyr wrth gyflogi. Mae hyn hefyd o bosibl yn adlewyrchu un o'r ffyrdd ble mae newydd-ddyfodiaid diweddar yn credu eu bod yn wynebu anghyfartaledd (2/10 o ymatebwyr) a gwahaniaethu (3/10). Er y gall nifer o achosion fod yn gysylltiedig â statws mewnfudwyr neu ethnigrwydd, mae'r dyfyniad hwn yn nodi y gall gwahaniaethu ymestyn i nodweddion gwarchoddedig eraill fel oedran. Roedd sgiliau iaith Saesneg hefyd wedi'i roi fel rheswm dros fod yn aflwyddiannus yn dod o hyd i waith:



Oherwydd nad yw fy Saesneg yn dda ... nid yw llawer o gwmnïau yn fy nghyflogi.



Mae'r farn hon yn cefnogi canfyddiadau cynharach ar allu ieithyddol. Mae anawsterau dod o hyd i gyflogaeth yn gysylltiedig ag anhawster dod o hyd i ddsbarthiadau Saesneg. Yn ogystal, mae hyn yn cynnig cefnogaeth bellach i'r ddadl bod cryfhau'r ddarpariaeth bresennol o ddsbarthiadau Saesneg yn hanfodol, nid yn unig i helpu ymfudwyr diweddar i fod yn rhan o ddiwylliant lleol, ond hefyd i gael gwaith. Dimensiwn arall i'w ystyried wrth archwilio diweithdra ymhlith newydd-ddyfodiaid yw cyflyrau iechyd hirdymor. Roedd dadansoddiad Bivariate yn datgelu bod cyfradd diweithdra i'r sawl â chyflwr iechyd meddwl neu gorfforol hirdymor 5% yn uwch na'r sawl heb y cyflyrau hyn. Mae'r lefelau uwch anghymesur o ddiweithdra ymhlith newydd-ddyfodiaid diweddar o Hong Kong o'i gymharu â 3% yng Nghymru¹⁷ yn syfrdanol yn arbennig wrth ystyried yr argyfwng costau byw presennol. Roedd canlyniadau o'r arolwg yn canfod:



7/10 neu ymatebwyr yn bryderus am *gostau byw a thalu biliau*

Costau byw a thalu biliau yw'r prif bryder ymhlith rhestr faith o faterion, gyda 70% o ymatebwyr yn nodi ei fod yn bryder presennol. Mae tystiolaeth yn yr adroddiad hwn


¹⁷ Ffigyrau yn dod o chwarter cyntaf adroddiad 2022 (Ion-Maw): <https://gov.wales/labour-market-overview-may-2022>.

yn cyfeirio at rwystrau cyson i gyflogaeth gyda'r un mwyaf amlwg yn sgiliau iaith Saesneg. Yn ogystal, gallai argyfwng costau byw ynghyd â chyfraddau cyflogaeth is anghymesur (o'i gymharu â'r dinesydd Cymreig cyfartalog) o bosibl eu taflu i amddifadrwydd, sefyllfa resynus sydd angen sylw polisi ar frys. Mynediad i gyflogaeth sefydlog a dymunol sy'n cyd-fynd â'u lefel cymhwyster yn hanfodol ar gyfer integreiddio yn y farchnad lafur i newydd-ddyfodiaid (Cheung a Phillimore 2014) ac mae'n amlwg yn ardal ar gyfer sylw polisi brys yng Nghymru. Er y dylai blaenoriaethau gael y di-waith i mewn i waith, mae angen dealltwriaeth o'r sawl mewn gwaith hefyd.

Mathau o Gyflogaeth a'r Sector Diwydiannol

I'r sawl mewn gwaith, gellir nodi pedwar math o gyflogaeth: cyflogedig llawn amser, cyflogedig rhan amser, hunangyflogedig llawn-amser a hunangyflogedig rhan amser. Mae cyflogaeth llawn amser yn cael ei ddiffinio fel unrhyw swydd sy'n cynnwys tri deg awr neu fwy yr wythnos, gyda gwaith rhan amser yn unrhyw waith o dan dri deg awr yr wythnos. Mae dosbarthiad y math o gyflogaeth (ymhlith pawb sy'n gyflogedig) wedi'i gynnwys yn Ffigur 4.5.3:


Mae'r dadansoddiad 'mewn gwaith' yn datgelu bod y mwyafrif o ymatebwyr (60.9%) mewn gwaith llawn amser, y rhan fwyaf yn weithwyr (50%) a ffracsiwn llai yn hunangyflogedig (10.9%) yn llawn amser. Roedd tua pedwar mewn deg yn dweud eu bod mewn gwaith rhan-amser (39.1%) gyda 31.1% yn weithwyr rhan amser a 7.8% yn hunangyflogedig rhan amser. Mae hunangyflogedig (18.7%) yn llawer llai cyffredin na gwaith cyflogedig (81.3%).



Ffigur 5.3: Math o Gyflogaeth

O ran sectorau cyflogaeth diwydiannol, gofynnwyd i ymatebwyr am eu:

1. Sector blaenorol yn Hong Kong
2. Sector diwydiannol presennol
3. Sector dymunol i weithio ynddo



Ffigur 4.5.4: Sectorau cyflogaeth diwydiannol blaenorol a phresennol


Mae Ffigur 4.5.4 yn dangos cyffredinolrwydd gweithio mewn sectorau diwydiannol tra roedd ymatebwyr yn byw yn Hong Kong, o'i gymharu â'r sawl nawr yn gweithio yng Nghymru. Yn fwy amlwg, mae cyfran llawer uwch o ymatebwyr bellach yn gweithio yn y sector manwerthu, twristiaeth neu letygarwch (37.1%) nag o'r blaen pan oeddent yn byw yn Hong Kong (14.7%). Newid amlwg arall mewn sector yw addysg sydd wedi cynyddu 6% mewn cyfran o Hong Kong i Gymru. I'r gwrthwyneb, nid oedd cyfran llawer uwch oedd yn gweithio o fewn ieuchyd a gofal cymdeithasol a llywodraeth leol gynt wedi dod o hyd i waith yn yr un sectorau yng Nghymru. Roedd cyfran llawer llai oedd yn gweithio o fewn cyllid ac adeiladu gynt wedi gallu dod o hyd i waith yn yr un sectorau. Roedd y sawl oedd yn gweithio o fewn y gyfraith, masnachu, peirianeg, cyfryngau ac amaeth yn Hong Kong yn absennol yn llwyr yn y sectorau hyn yng Nghymru. Mae'n debyg eu bod wedi mynd am swyddi ar lefel is o fewn manwerthu a lletygarwch. Mae hyn hefyd yn arwydd bod llawer o bobl o Hong Kong wedi profi llai o symudedd cymdeithasol, o leiaf ar y dechrau nes iddynt ddod o hyd i waith sy'n

gymesur â'u cymhwyster.¹⁸ Mae bobl o Hong Kong yn dod â swm enfawr o gyfalaf dynol i Gymru. Mae gorgymhwyster a diffyg cyflogaeth yn ffynhonnell o aneffeithlonrwydd economaidd sy'n rhaid mynd i'r afael ag ef ar unwaith gan y llywodraeth.



Ffigur 4.5.5: Cymylau geiriau ar gyfer sectorau diwydiannol

Mae'r cymylau geiriau yn Ffigur 4.5.5 yn dangos y sectorau diwydiannol mwyaf cyffredin yr oedd ymatebwyr yn gweithio ynddynt yn Hong Kong (ar y chwith) ac yng Nghymru ar hyn o bryd (ar y dde).



Ffigur 4.5.6: Sector diwydiannol a ddymunir ymhlith ymatebwyr


Er bod llawer o ymatebwyr wedi symud i'r sectorau lletygarwch, manwerthu a thwristiaeth ers symud i Gymru, nid yw hyn yn angenrheidiol i gael gwaith, ond yn

¹⁸Nid yw'n anghyffredin i ymfudwyr newydd dderbyn unrhyw swyddi 'llenwi mewn' i'w cefnogi tra'n chwilio am rywbeth mwy parhaol a phriodol i'w lefel o gymhwyster, ond amser a ddengys os bydd bobl o Hong Kong yn dal yn y swyddi hyn. Dylai ymchwil ar gyfer y dyfodol hefyd edrych ar y math o gontract a hyd cyflogaeth.

hytrach y sector mwyaf dymunol i fynd iddo. Yr ail a'r trydydd sector mwyaf a ddymunir yw iechyd/gofal cymdeithasol (16.9%) a llywodraeth leol (13.5%). Fodd bynnag, ar hyn o bryd, 4.8% yn unig o ymatebwyr sy'n gweithio yn y sectorau hyn, sy'n nodi diffyg cyfatebiaeth sylweddol. O ystyried bod llawer o ymatebwyr yn gweithio mewn sectorau o'r fath yn Hong Kong (17.1%) a llawer wedi mynegi diddordeb mewn dychwelyd, mae'n rhaid darparu cefnogaeth gan y llywodraeth i'w cynorthwyo i chwilio am waith yn y sectorau hyn. Y pedwerydd a'r pumed sector y dymunir gweithio ynnddynt fwyaf yw gweithgynhyrchu (13.5%) a chludiant (10.1%). Yn ddiddorol, 6.7% yn unig o ymatebwyr oedd yn dymuno bod yn berchen ar eu busnes eu hunain, sector uchel yn gyffredinol yn flaenorol yn Hong Kong ac yng Nghymru ar hyn o bryd. Gallai fod oherwydd bod unrhyw berchnogion busnes posibl eisoes wedi sefydlu eu busnes ac felly heb ddewis yr eitem hon yn yr arolwg. Y ddau sector lleiaf a ddymunir oedd amaeth (3.5%) ac adeiladu (1.1%).

4.6 Sgiliau Iaith


Mae sgiliau iaith Saesneg yn hanfodol ar gyfer integreiddio mewn cymdeithas Gymraeg a Phrydeinig. Roedd canlyniadau'r arolwg yn canfod bod:




6/10 o ymatebwyr yn bryderus am *eu sgiliau iaith Saesneg*

Gyda dros hanner holl ymatebwyr yn bryderus am eu sgiliau iaith Saesneg a'u gallu i gyfathrebu gyda bobl leol, mae'n hollbwysig deall eu gallu ieithyddol yn well a ffyrdd o'u gwella. Mae pump dimensiwn iaith yn cael eu harchwilio: iaith gyntaf (a ffefrir); sgiliau Saesneg a hunan-adroddir arnynt; mynediad i ddosbarthiadau 'Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL); sgiliau Cymraeg a pharodrwydd (am resymau) i ddysgu Cymraeg.

Yr iaith a ffefrir ymhlith ymatebwyr yw Cantoneg (73.1%), gyda tua chwarter yn well ganddynt ddefnyddio Saesneg (24.8%). Roedd cyfrannau isel iawn o ymatebwyr yn ddwyieithog (Cantoneg a Saesneg) (0.7%) neu'n well ganddynt siarad Saesneg Hong Kong (0.7%). Er bod yn well gan y rhan fwyaf o ymatebwyr siarad Cantoneg, fel eu prif iaith, mae gan lawer sgiliau iaith Saesneg da:




Ffigur 4.6.1: Iaith a Ffefrir




Ffigur 4.6.2: Gallu iaith Saesneg a adroddir ganddynt

Roedd cyfran uwch o ymatebwyr yn ei chael hi'n haws darllen Saesneg (68%) i safon 'dda' neu 'dda iawn' na siarad (50%), ysgrifennu (54%) neu ddeall (Saesneg llafar) (47%). Mae'n werth nodi o'r sawl sy'n gallu darllen, ysgrifennu, siarad a deall Saesneg, roedd cyfran llawer llai yn nodi lefelau 'da iawn' o'i gymharu â 'da' yn unig:



Ffigur 4.6.3: Pedair agwedd o allu ieithyddol Saesneg


Mae ffigur 4.6.3 yn dangos bod cyfran isel iawn o ymatebwyr wedi dweud fod ganddynt lefelau da iawn o Saesneg: darllen (7.3%), ysgrifenedig (5.5%), siarad (0.9%) a deall (2.7%).



Ffigur 4.6.4: Gwahaniaeth rhwng y rhywiau mewn gallu Saesneg

Mae ffigur 4.6.4 yn dangos y gwahaniaeth rhwng y rhywiau mewn gallu iaith. Roedd merched yn fwy tebyg o adrodd eu bod yn gallu darllen (+5.9%) a deall Saesneg (+7.9%) na dynion. I'r gwrthwyneb, roedd mwy o ddynion yn dweud eu bod yn gallu siarad (+9.3%) ac ysgrifennu (+7.9%) Saesneg na merched. Nid yw'n bosibl profi'n

ffurfiol a yw'r gwahaniaethau hyn yn sylweddol yn ystadegol oherwydd maint bach y sampl. Fodd bynnag, mae gallu Saesneg yn amrywio llawer mwy yn ôl grŵp oed.




Ffigur 4.6.5: Gwahaniaethau oed mewn gallu Saesneg

Mae cymariaethau oed mewn sgiliau iaith yn cael eu hystyried ar gyfer y grwpiau mwy yn unig (25-44 a 45-64)¹⁹. Mae ffigur 4.6.5 yn dangos bod ymatebwyr iau rhwng 25-44 oed â sgiliau ieithyddol Saesneg llawer gwell yn y pedwar agwedd na'r sawl sy'n 45-64 oed. Y bwlch mwyaf yw'r gallu i siarad Saesneg (+33%), yna dealltwriaeth (+29%), ysgrifennu (+27%) a darllen (+21%). Nid yw hyn o bosibl yn syndod gan fod 68.4% o'r grŵp oedran iau â chymhwyster prifysgol neu uwch o'i gymharu â 45% o'r garfan hŷn. Mae hyn yn anghyson gyda chanfyddiad mynegai gallu Saesneg ble mae gan raddedigion prifysgol y sgôr cyfartaledd Saesneg uchaf²⁰, i ddilyn gan y sawl a gyflogwyd a'r garfan iau 18-44 oed.

¹⁹ Roedd categorïau oed dan 24 (n=2) a 65+ (n=2) wedi eu dileu oherwydd cyfrif hynod o isel.

²⁰ Cafodd y rhain eu cyfrif drwy gymryd cyfartaledd o'r sgôr gallu Saesneg o 1 i 4 ar bob dimensiwn.




Ffigur 6.6.6: Mynegai gallu Saesneg

Unwaith eto, mae yna dystiolaeth gymhellol bod hyfedredd Saesneg yn hanfodol wrth integreiddio marchnad lafur. Mae'r bylchau oedran mewn gallu ieithyddol hefyd yn awgrymu y dylai dosbarthiadau ESOL dargedu anghenion y carfannau hŷn.

Sgiliau Iaith Gymraeg

Cafodd yr un dangosyddion sgiliau iaith â'r cwestiynau Saesneg eu defnyddio ar gyfer gallu iaith Gymraeg:



Ffigur 4.6.7: Gallu iaith Gymraeg a hunan-adroddir

Mae'r canfyddiadau yn dangos bod gan ymatebwyr ychydig neu ddim gallu iaith Gymraeg, a dim ymatebwyr yn gallu deall (siaredir), siarad na darllen Cymraeg.

Roedd ffraciwn bach iawn o ymatebwyr yn dweud eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg i safon dda (0.7%). Er gwaethaf y ffaith bod sgiliau iaith Gymraeg presennol yn isel, roedd dros hanner yr ymatebwyr (56%) yn dymuno dysgu Cymraeg.

56%

o ymatebwyr yn
dymuno dysgu
Cymraeg



Ffigur 7.8: Parodrwydd i ddysgu Cymraeg

Cafodd tri ffactor cymhelliant eu harchwilio ar gyfer dysgu Cymraeg:

1. I wella cyfleoedd gwaith
2. I gefnogi plant yn yr ysgol
3. Integreiddio i ddiwylliant lleol

Ymhlith yr ymatebwyr sy'n weithgar yn economaidd (72%), roedd 58.3% eisiau dysgu Cymraeg i wella cyfleoedd gwaith. Roedd ymatebwyr wedi nodi bod rhai gweithleoedd vn cael eu dominvddu aan siaradwvr Cymraeg:



Roeddwn yn sylwi bod y cydweithwyr lleol yn cyfathrebu yn Gymraeg yn hytrach na'r Saesneg y rhan fwyaf o'r amser, hyd yn oed eu bod yn deall Saesneg



Felly, rwy'n meddwl nad yw'n gywir disgrifio pobl yng Nghymru yn "siarad Saesneg yn gyffredinol", yn arbennig ar gyfer y gweithle - maent yn siarad Cymraeg.



Mae'r dyfyniadau hyn yn awgrymu y gall heriau ychwanegol fodoli yn y gweithle, ble mae'n well gan gydweithwyr siarad Cymraeg. Er bod rhai yn teimlo y gallai eu cydweithwyr fod yn fwy cynhwysol drwy siarad Saesneg o amgylch ymfudwyr, roedd ymatebwyr yn nodi eu bod yn deall dymuniad siaradwyr Cymraeg i gynnal eu diwylliant.



Rwy'n deall sut mae'r bobl leol eisiau cadw eu hiaith a'u diwylliant lleol, fel mae pobl o Hong Kong yn dymuno ei




4.7 Dosbarthiadau Saesneg

Mynediad i ddosbarthiadau Saesneg


Mewn egwyddor, mae'r dosbarthiadau Saesneg a ariannwyd gan DLUHC i siaradwyr ieithoedd eraill (ESOL) ar gael i bawb o Hong Kong sydd eu hangen. Fodd bynnag, 22.5% yn unig o ymatebwyr sydd wedi'i chael yn hawdd iawn (4.8%) neu'n hawdd (17.7%) i gael mynediad i wersi Saesneg. I'r gwrthwyneb, roedd bron un mewn pedwar yn ei chael hi'n anodd cael mynediad (anodd = 18.4%, anodd iawn = 5.4%). Cafodd barn ymatebwyr am ddarpariaeth ESOL ei archwilio ymhellach:

1. Argaeledd dosbarthiadau ESOL lleol i bobl o Hong Kong
2. Pa un a yw'r dosbarthiadau ESOL yn ateb eu hanghenion




Ffigur 8.1: Canfyddiad o ddosbarthiadau ESOL

Mae'r canfyddiadau hyn yn amlygu prif rwystr a wynebwr gan ymfudwyr diweddar o Hong Kong wrth geisio integreiddio i fywyd yng Nghymru. Mae'r prif system ar waith i helpu ymfudwyr ddysgu Saesneg (dosbarthiadau ESOL) (a) ar gael mewn ychydig dros hanner (52%) o ymatebwyr lleol a (b) 16% yn unig yn dweud bod eu hanghenion wedi eu bodloni.



Ffigur 4.7.2: Gwahaniaethau o ran rhywedd i gael mynediad i ddsbarthiadau ESOL

Wrth archwilio gwahaniaethau o ran rhywedd, mae Ffigur 4.7.2 yn dangos bod gan gyfran uwch o ymatebwyr benywaidd (35%) fynediad i ddsbarthiadau ESOL lleol na dynion (29%).




Ffigur 4.7.3: Gwahaniaeth o ran rhyw ar gyfer pa un a yw dosbarthiadau ESOL yn bodloni anghenion.

Roedd merched hefyd yn fwy tebyg o adrodd bod dosbarthiadau ESOL yn bodloni eu hanghenion o gymharu â dynion (+8%). Felly, mae'r canlyniadau hyn yn nodi bod dynion wedi cael mwy o anawsterau gyda dosbarthiadau ESOL na merched, o ran mynediad cyffredinol a bodloni eu hanghenion. Er gwaethaf hyn, roedd y lefelau a adroddwyd o fynediad ESOL i ferched yn yr un modd yn isel iawn. Mae'r canfyddiadau hyn yn syfrdanol ac yn dangos rhwystr clir i ddysgu Saesneg ar gyfer newydd-

ddyfodiaid diweddar. Er mwyn deall effaith rhwystrau o'r fath ymhellach, cafodd dadansoddiad cydgysylltiad rhwng mynediad i ddosbarthiadau Saesneg a gweddill y dimensiynau ymgysylltu (fel y dangosir yn ffigur 21) ei gynnal. Roedd y cydgysylltiadau wedi eu hystyried yn defnyddio gweithdrefnau graddfa amlddimensiynol (MDS):

Mae clystyrau ar y cynllun yn adlewyrchu lefelau uchel o gydgyssylltiad rhwng dimensiynau gwahanol o ymgysylltu sefydliadol. Mae'r dadansoddiad cydgysylltu yn dangos clwstwr dwys o amgylch dosbarthiadau Saesneg. Mae hyn yn awgrymu bod mynediad hawdd ar gyfer dimensiynau cyfagos ar y cynllun yn cael eu



Ffigur 4.7.4: Delweddu cydgysylltiad MDS ar gyfer dimensiynau ymgysylltu

Mewn geiriau eraill, mae diffyg mynediad i ddosbarthiadau Saesneg yn gysylltiedig â rhwystrau i fynediad i sefydliadau eraill. Roedd anhawster mynediad ar gyfer pedwar digwyddiad cymdeithasol a sefydliadol yn gyd-gysylltiedig yn gadarnhaol gyda dosbarthiadau Saesneg:

1. Mynediad at wasanaethau cymorth
2. Mynediad at roi gwybod am drosedd
3. Mynediad at gyflogaeth
4. Mynediad at awdurdodau lleol

Mae'n werth nodi bod cydgysylltiad yn parhau gyda dimensiynau ymgysylltu eraill fel gofal iechyd, ysgolion a thai. Fodd bynnag, mae'r pellter cymharol yn nodi bod yna ffactorau sylweddol eraill wrth gyfyngu ar fynediad i'r rhain nag argaeledd dosbarthiadau Saesneg yn unig. Er bod y canfyddiadau hyn yn taflu goleuni ar y materion sylweddol o ran cael mynediad i ddosbarthiadau ESOL, nid ydynt yn gwneud llawer i egluro pam. Mae atebion testun agored yn darparu cipolwg pellach.

Rhesymau dros fynediad cyfyngedig i ESOL

Un o'r rhesymau mwyaf cyffredin a roddwyd oedd ymrwymïadau yn gwrthdaro fel gwaith a gofal plant:

“ *Os byddai yna gyrsiau am ddim ar-lein, byddai hynny'n wych. Gan fod yn rhaid i mi weithio a gofalu am blant, mae mynychu* ”

“ *Ond os oes gennych swydd, allwch chi ddim mynd i'r dosbarth, felly rydych yn astudio mwy ar-lein.* ”

Gydag ymrwymïadau gwaith a gofal plant yn cyflwyno rhwystrau i fynychu dosbarthiadau ESOL, roedd nifer o ymatebwyr yn mynegi ei bod yn well ganddynt ddosbarthiadau ar-lein oherwydd eu bod yn fwy hyblyg ac yn fwy hygyrch. Mae'r canfyddiad hwn yn codi cwestiynau pwysig, oherwydd bod ymchwil blaenorol yn awgrymu y gall dosbarthiadau ar-lein gael effaith negyddol ar ddatblygu sgiliau siarad a dysgu (Rolfe and Stevenson, 2021). Tra bod hyn yn gallu bod yn wir, mae'r anawsterau a wynebir gan bobl o Hong Kong yng Nghymru i gyrraedd dosbarthiadau ESOL yn wir. Dylai dosbarthiadau ar-lein a darpariaeth plant felly gael ei gyflwyno neu ei ymestyn i wella mynediad. Pryder arall a adroddwyd gan ymatebwyr oedd diffyg cyrsiau lefel canolradd neu uwch. Roedd ymatebwyr yn cyfeirio at y ddarpariaeth bresennol sy'n cynnwys dull 'un ateb sy'n addas i bawb':

“ *... dw i ddim yn gwybod, rwy'n dioddef gyda* ”

Roedd yna rywfaint o adrodd am orbryder cymdeithasol yn arwain at fod yn gyndyn i fynychu dosbarthiadau iaith Saesneg:

“ *Dosbarthiadau llafar lefel canolradd i uwch (yn fwy addas) i mi tra bydd lefel dysgwyr yn dda i fy rhieni.* ”

Yn olaf, roedd ymatebwyr yn nodi nad ydynt wedi gallu dechrau dosbarthiadau iaith Saesneg eto, oherwydd eu bod yn parhau yn y broses o setlo, gyda blaenoriaethau fel dod o hyd i lety, cyflogaeth ac ysgol addas:



Rwyf wedi dechrau chwilio am gyrsiau Saesneg ... Rwy'n dibynnu ar wrando a siarad mwy pan rwyf yn y gwaith ac rwyf eisiau gwneud cwrs Saesneg pan mae gennyf amser



Mae hyn yn gallu cael ei ystyried fel canfyddiad cadarnhaol, gan ei fod yn nodi bod rhai ymatebwyr yn dilyn dosbarthiadau Saesneg ar ôl iddynt ymgartrefu. Er hynny, mae yna angen amlwg i wella argaeledd ac amrywiaeth lefel gallu dosbarthiadau ESOL, er mwyn ateb anghenion gwahanol newydd-ddyfodiaid diweddar yn well. Dylai'r newidiadau hyn ystyried darpariaeth ehangach o gyrsiau ar-lein, cefnogaeth gofal plant, cefnogaeth gymdeithasol i'r sawl â gorbryder cymdeithasol a darpariaeth mwy bodlon o ddosbarthiadau yn ôl gallu. Yn dilyn y cwestiynau canolog i ESOL, roedd ymatebwyr wedi cael cyfle i fanylu dulliau eraill o ddysgu Saesneg a ddefnyddiwyd ganddynt ers symud i Gymru. Er bod llawer yn ailgadarnhau'r angen am ddosbarthiadau (yn arbennig ar-lein) cafodd sawl dull arall eu nodi. Er enghraifft, roedd nifer o ymatebwyr yn awgrymu bod gwyllo'r BBC a gwrando ar y radio yn aml wedi profi'n fuddiol.



Gwyllo'r BBC (a) gwrando ar y radio



Roedd yn well gan ymatebwyr eraill ddysgu Saesneg drwy ymdrochi mewn gweithgareddau a diwylliant lleol. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu gydag ystod o sefydliadau fel eglwysi, clybiau chwaraeon, grwpiau gwirfoddol, yn ogystal â rhyngweithio gyda chymdogion a chydweithwyr:



Ymuno â'r cymunedau lleol fel yr eglwys, grwpiau gwirfoddoli, partiön penwythnos a chlybiau



Er bod ymgysylltu â bobl leol a'r cyfryngau yn ymddangos yn ffordd effeithiol o ddatblygu sgiliau Saesneg yn naturiol, roedd rhai ymatebwyr yn nodi bod deall acenion gwahanol yn gallu effeithio ar pa mor dda maent yn gallu dilyn sgysiau. Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos bod rhai newydd-ddyfodiaid diweddar o Hong Kong yn gallu ymestyn eu rhwydweithiau cymdeithasol tra'n gwella eu sgiliau Saesneg yr un

pryd. Fodd bynnag, nid yw'r gallu i ddatblygu rhwydweithiau cymdeithasol newydd wedi'i ddsbarthu'n wastad ymhlith holl newydd-ddyfodiaid, ni ddylai'r dulliau hyn gael eu hystyried fel modd unigryw o ddysgu Saesneg. Mae dulliau ffurfiol a darpariaeth gyffredinol yn parhau'n hanfodol i gefnogi anghenion gwahanol newydd-ddyfodiaid i integreiddio i'r gymdeithas Gymreig.

4.8 Statws a Phryderon Iechyd

Statws iechyd yn cael ei archwilio gan gyffredinolrwydd amodau corfforol ac iechyd meddwl hirdymor a natur y cyflyrau hyn.


12%

yn adrodd fod ganddynt gyflwr meddyliol neu gorfforol hirdymor



Ffigur 4.8.1: Cyffredinolrwydd cyflyrau iechyd hirdymor


Roedd y mwyafrif o ymatebwyr (88%) yn dweud nad oedd yna broblemau gyda chael cyflwr corfforol neu iechyd meddwl hirdymor. Ymhlith y 12% oedd wedi ateb 'oedd' i'r cwestiwn hwn, gofynnwyd iddynt nodi pa gyflwr iechyd meddwl neu gorfforol hirdymor yn y meysydd canlynol: nam ar y clyw, nam ar y golwg, nam ar y lleferydd, anawsterau dysgu, materion iechyd meddwl a nam corfforol/symudedd.



Ffigur 4.8.2: Mathau o gyflwr iechyd

Y cyflwr iechyd mwyaf cyffredin ymhlith ymatebwyr oedd iechyd meddwl (31.6%), gydag anawsterau dysgu i ddilyn (15.8%), nam ar y lleferydd (15.8%) a nam ar y golwg (5.3%). Mae'r lefel uchel o faterion iechyd meddwl yn brif bryder polisi. Mae nifer o bobl o Hong Kong yn dioddef trawma hirdymor a roddwyd arnynt gan lywodraeth HKSAR a mynd i'r afael â phrotestiadau democrataidd. Roedd yn well gan rai ymatebwyr beidio ateb (15.8%). Gyda stigma a bod yn gyndyn i roi gwybod am faterion iechyd meddwl, fel yr hysbyswyd gan sawl un o Hong Kong, mae'r ffigyrau hyn yn debyg o fod wedi eu tanamcangyfrif.

Yna cafodd cyfranogwyr gyfle i nodi pa "gyflyrau eraill" (15.8%) oedd ganddynt. Cafodd tri chyflwr eu crybwyll: poen ysbeidiol yn y cymalau, ADHD a diabetes. Roedd yr arolwg hefyd yn gofyn am anhawster neu pa mor hawdd oedd cael mynediad i wasanaethau gofal iechyd yng Nghymru.



4/10 O ymatebwyr yn ei chael hi'n anodd cael mynediad i wasanaethau gofal

iechyd

Er gwaethaf y ffaith bod holl BN(O) HK wedi talu'r Gordal Iechyd Mewnfudo (IHS) adeg y cais a chyn symud i'r DU, roedd 40% o ymatebwyr yn parhau i brofi anhawster cael mynediad i'r GIG. Mae'r canfyddiad hwn yn peri pryder, ond nid oedd yna ddata ansoddol ar gael i archwilio hyn ymhellach.

Gwasanaethau Cynnal Eraill



4/10 O ymatebwyr yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at wasanaethau

cymorth.

Mae yna gysylltiad agos rhwng anhawster cael mynediad i wasanaethau cefnogi a sgiliau iaith Saesneg. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod yna gysylltiad llawer gwannach rhwng gallu iaith a mynediad i wasanaethau gofal iechyd. Mae atebion testun agored yn rhoi cipolwg pellach i anawsterau cael mynediad i wasanaethau iechyd a gofal deintyddol. Mae ymgynghori dros y ffôn yn broblem fawr gan fod trafod materion iechyd dros y ffôn yn Saesneg yn hynod heriol i lawer o bobl o Hong Kong.

“ ..anhawster trefnu apwyntiad gyda Meddyg Teulu ... anhawster disgrifio llawer o symptomau neu salwch mewn Saesneg priodol wrth y Meddyg Teulu ... mae hyn hyd yn oed yn llai o wybodaeth ar ddeintyddion ... (yn arbennig)

“ (rydym) wedi cyrraeddam 10 mis. Nid ydym yn gallu cofrestru gyda deintydd GIG. Mae gennyf y ffurflen i ymuno â chronfa ddata rhestr aros ganolog deintydd GIG ond yn

4.9 Ymgartrefu

Mae'r Arolwg Croeso yn gofyn nifer o gwestiynau ar sut mae newydd-ddyfodiaid diweddar o Hong Kong yn ymgartrefu yng Nghymru: ymgysylltu sefydliadol; pryderon cychwynnol a hapusrwydd ers symud i Gymru. Roedd y ddau ddimensiwn blaenorol yn cynnwys archwiliad trwyadl o ystod o ffactorau cymdeithasol ac economaidd gwahanol. Roedd ymatebwyr yn cael cyfle i amlinellu unrhyw ddimensiynau pryder pellach mewn meysydd testun agored na ddarparwyd yn y dewisiadau arolwg.


Ymgysylltu Sefydliadol

Roedd y cwestiynau ymgysylltu sefydliadol yn gwahodd ymatebwyr i nodi pa mor anodd neu hawdd oedd cael mynediad i ystod o sefydliadau cymdeithasol, iechyd, economaidd a cymunedol yng Nghymru. Cafodd pa mor hawdd (neu anodd) yw cael mynediad i naw eitem gwahanol ei fesur:

1. Canfod cartref addas

2. Canfod gwaith
3. Canfod ysgol i'ch plant
4. Addasu i fywyd yng Nghymru
5. Cysylltu â'ch awdurdod lleol
6. Cofrestru am wasanaethau gofal iechyd (brechu, meddyg teulu, deintydd, ac ati)
7. Cofrestru ar gyfer dosbarthiadau Saesneg
8. Deall sut i roi gwybod am drosedd
9. Mynediad at wasanaethau cyngor a chymorth

Cafodd y rhain eu mesur ar raddfa-Likert pum pwynt, o (1) hawdd iawn i (5) anodd iawn. Mae'r canlyniadau ar gyfer pob eitem wedi eu cyflwyno yn Ffigur 4.9.1:



Ffigur 4.9.1: Ymgysylltu sefydliadol

Mae ffigur 4.9.1 yn dangos rhwyddineb ac anhawster naw dimensiwn 'ymgartrefu'. Fel o'r blaen, mae'r canlyniadau yn cael eu cyflwyno drwy drefnu cyfran uchaf adroddiadau 'hawdd iawn' mewn trefn ddisgynnol.

Addysg

Er bod addysg i blant yn ymddangos fel un o'r rhwystrau sefydliadol yr adroddwyd arno leiaf wrth setlo yng Nghymru, mae Ffigur 4.9.1 yn dangos bod 16.4% o rieni yn parhau i gael anhawster cofrestru eu plant mewn ysgol. Mae'r gyfran hon yn parhau'n

bryderus, yn arbennig wrth ystyried pa mor hanfodol yw cofrestru yn yr ysgol i gyrhaeddiad addysgol plant ac integreiddio yn niwylliant Cymru. Er na ofynnwyd unrhyw gwestiwn o ran pam y profwyd anawsterau o'r fath, mae rhai dyfyniadau testun agored yn rhoi cipolwg pellach. Un mater yw'r angen i rai plant aileistedd blwyddyn ysgol, gan fod eu haddysg flaenorol wedi'i darparu'n bennaf mewn iaith wahanol.


“ *Hefyd gofynnais i fy merch gael aileistedd blwyddyn gan fod ei hysgol flaenorol yn Hong Kong yn addysgu mewn Tsieineaidd yn bennaf ... roeddwn yn bryderus na fyddai'n gallu dal i fyny* ”

Mewn rhai achosion, sylwodd rhieni bod yn rhaid ffeilio ceisiadau i aileistedd blwyddyn gyda dwy adran ar wahân. Gan nad oedden nhw'n gwybod am hyn yn flaenorol, roeddent wedi colli'r cyfle. Roedd ymatebwyr yn nodi nad oeddent yn deall y system addysgol na phwy i ofyn wrthynt am gymorth

“ *Hefyd, nid wyf yn gwybod a oes yna unrhyw lyfrau testun y gallaf eu defnyddio ar gyfer astudio gartref! Fel arall, bydd fy merch yn treulio 4 mis neu fwy heb fynediad at addysg* ”

“ *Nid wyf yn deall y strwythur addysg yng Nghymru. Nid wyf yn gwybod pwy i ofyn am gymorth!* ”

Mae'r dyfyniadau hyn wedi amlygu anawsterau cofrestru mewn ysgol a brofwyd gan rai rhieni, yn bennaf oherwydd diffyg dealltwriaeth o'r system addysg. Mae'r diffyg gwasanaethau cyngor pwrpasol a hygyrch wedi gwaethygu'r profiadau negyddol hyn.



Roedd sgorau cymedrig hefyd yn cael eu cyfrif i helpu i nodi pa ymgysylltu yw'r mwyaf anodd a haws i ymfudwyr diweddar o Hong Kong: Mae archwiliad sydyn o Ffigur 4.9.2 yn dangos mai'r ymgysylltu sefydliadol mwyaf anodd i gael mynediad yw cyflogaeth (sgôr cymedrig: 2.65) a thai addas (sgôr cymedrig: 2.59). Mae'r categori moddol ar gyfer y ddwy eitem, yn arbennig ar gyfer tai, "braidd yn anodd". Mae'r rhain yn cael eu harchwilio ymhellach yn yr adrannau tai a chyflogaeth. Mae ymgysylltu arall gyda sgôr isel yn cynnwys mynediad i ofal iechyd, gwasanaeth cefnogaeth dosbarthiadau Saesneg. Er gwaethaf hyn, roedd y categori moddol ar gyfer mynediad at ofal iechyd "braidd yn anodd" gyda'r categori moddol ar gyfer dosbarthiadau Saesneg a gwasanaethau cefnogaeth "ddim yn anodd nac yn hawdd". Roedd rhai yn dweud eu bod angen cyngor ar faterion sifil fel pleidleisio a threthu ond nad oedd cymorth ar gael yn hawdd.



Mae angen aros yn hir ar gyfer gwneud galwad i'r cyngor a gall fod yn anodd i siaradwyr anffordorol wrando a siarad dros y ffôn. Os byddai yna fwy o wasanaeth ar-lein, byddai hynny'n



Rwy'n gweld pobl o Gymru yn eithaf cyfeillgar ac yn



Ar nodyn cadarnhaol, mae addasu i fywyd yng Nghymru, i raddau, yr ymgysylltu mwyaf hawdd o'r naw dimensiwn, gyda dros 70% o ymatebwyr yn gweld addasu naill ai yn "hawdd iawn" neu'n "gymharol hawdd". Mae dyfyniadau cwestiynau agored yn nodi bod cyfeillgarwch cyffredinol y bobl leol yng Nghymru yn ffactor allweddol wrth greu'r teimlad hwn o gael eich cynnwys:



Rwyf mor lwcus bod fy nghymdogion yn gyfeillgar ac yn



Heblaw am wneud i ymfudwyr diweddar o Hong Kong deimlo bod croeso iddynt, mae ymgysylltu drwy gyflogaeth hefyd yn profi'n fuddiol, drwy gynnig cefnogaeth a darparu gwybodaeth:



Nid oeddwn yn gwybod bod llywodraeth Prydain yn cynnig £500 o gefnogaeth i'r sawl oedd wedi eu heffeithio gan Covid. Ond roeddwn wedi dysgu am y gefnogaeth gan fy



Roedd y teimladau o gyfeillgarwch lleol hefyd wedi eu hadlewyrchu yn yr adran pryderon cychwynnol. Roedd y tri chwestiwn seiliedig ar gydlyniant cymunedol (anghyfartaledd: 2 mewn 10 o ymatebwyr, gwahaniaethu 2 mewn 10 o ymatebwyr a throedd casineb 3 mewn 10 o ymatebwyr) wedi derbyn lefelau cymharol isel o bryder. Er gwaethaf y lefelau pryderon hyn, yr isaf o'i gymharu â phryderon mwy uniongyrchol eraill fel tai a chyflogaeth, maent yn dal i nodi graddau penodol o bryder ymhlith ymfudwyr diweddar o Hong Kong o ran gwahaniaethu yn eu herbyn, naill ai yn economaidd neu yn gymdeithasol. Gyda'i gilydd, mae tai a chyflogaeth yn cynnwys y nifer uchaf yn dweud eu bod yn teimlo gwahaniaethu. Mae hyn yn gyson gyda'r 107 o resymau a nodwyd ar gyfer prif bryderon: 26 ar anghyfartaledd, 45 gwahaniaethu a enwir a 36 ar droseddau casineb. Cyfeirir at y sgorau ymgysylltu sefydliadol eraill, fel tai, cyflogaeth, gofal iechyd, dosbarthiadau Saesneg a rhoi gwybod am drosedd ynghyd â phryderon cychwynnol yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Ymgartrefu a chyfryngau cymdeithasol

Nid oedd unrhyw un o'r cwestiynau i'r arolwg yn ymwneud yn benodol â chyfryngau cymdeithasol, nodwyd yn aml yn y cwestiynau agored fel adnodd defnyddiol iawn ar gyfer ymgartrefu yng Nghymru. Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn galluogi ymfudwyr newydd i gael mynediad a rhyngweithio gyda chymunedau, ar yr un pryd â bod yn ffynhonnell wybodaeth allweddol defnyddiol:



